

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGFNI**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGFNI**

**DYDD IAU
27 CHWEFROR 2014**

**THURSDAY
27 FEBRUARY 2014**

am 2.00 o'r gloch

at 2.00 pm

R H A G L E N

Cyflwyniad: Bydd Mr Stephen Roe, Ysgrifenydd Partneriaeth Masnach Deg Ynys Môn yn annerch y cyfarfod ynglŷn â'r cais llwyddiannus i adnewyddu statws Masnach Deg Ynys Môn am ddwy flynedd hyd 2015 ac i ddathlu'r ffaith bod Cymru'n dathlu pum mlynedd fel Cenedl Fasnach Deg gynta'r byd eleni.

Bydd Mr Daniel Hurford, Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethu) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyflwyno 'Siarter Cymru Dros Gefnogi a Datblygu Aelod' i'r Cyngor hwn.

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u harwyddo, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 5 Rhagfyr, 2013
- 27 Ionawr, 2014 (Arbennig)

2. **DATGAN DIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

4. **COFNODION ER GWYBODAETH - BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD**

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o Fwrdd Gwella a Chynaliadwyedd Ynys Môn a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2013.

5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

6.1 **STRATEGAETH CYLLIDEB TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, TRETH GYNGOR, RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION PWYLLLOG 2014-15** (Tudalennau 19 - 24)

Cyflwyno Cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer strategaeth cyllideb refeniw tymor canol, cynllun cyfalaf dros dro a chyllidebau refeniw a chyfalaf am 2014-15.

6.2 **STRATEGAETH CYLLIDEB TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, TRETH GYNGOR, RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION PWYLLLOG 2014-15 – MATERION STATUDOL** (Tudalennau 25 - 70)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn delio â materion statudol yn ymwneud â'r gyllideb.

6.3 STRATEGAETH CYLLIDEB TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, TRETH GYNGOR, RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION PWYLLOG 2014-15 – PENDERFYNIAD FFURFIOL (Tudalennau 71 - 78)

Ystyried y penderfyniad ffurfiol fel oedd wedi ei gynnwys yn adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

6.4 STRATEGAETH CYLLIDEB TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, TRETH GYNGOR, RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION PWYLLOG 2014-15 – NEWIDIADAU I'R GYLLIDEB

Cyflwyno unrhyw newidiadau i'r Gyllideb yn dilyn derbyn rhybudd o dan Baragraff 4.3.2.2.11 y Cyfansoddiad.

(Noder: Bydd angen ystyried y cyfan o'r papurau uchod fel un pecyn).

7.1 NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR – POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN (Tudalennau 79 - 90)

Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

“Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn diwygio'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn y Cyfansoddiad yn y dull a nodwyd yn yr atodiad i'r adroddiad ac awdurdodi'r Swyddog Monitro wneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r Cyfansoddiad.”

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor).

7.2 NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR – LLYWYDD Y CYNGOR (Tudalennau 91 - 96)

Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2014 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir na fydd yn symud ymlaen yn hyn o beth.

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor).

8. GWERTHUSIAD CYMERIAD ARDAL GADWRAETH ABERFFRAW

Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr, 2014 wedi penderfynu:-

“argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo gwerthusiad cymeriad ardal cadwraeth Aberffraw i'w fabwysiadu fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA)”.

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd).

9. AMSERIAD CYFARFODYDD

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democraidd.

10. CYTUNDEB CANLYNIAD

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr.

11. CYNIGION A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD

(1) Cyflwyno'r Rhybudd o gynigiad canlynol gan y Cynghorydd A.Morris Jones, wedi ei gydarwyddo gan y Cynghorwyr Bob Parry,OBE, Jeff Evans, K.P.Hughes a Nicola Roberts:-

"Fel ymateb i Adolygiad Williams, rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn galw ar y Cyngor Sir i ddefnyddio pob ffordd bosibl i hyrwyddo pam y dylid cadw corff gwneud penderfyniad llywodraeth leol ar Ynys Môn."

Rhoi ystyriaeth i'r uchod.

(2) Cyflwyno'r Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorwyr Dylan.W.Rees, Bob Parry,OBE a Nicola Roberts:-

"Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i ystyried gwahodd uwch gynrychiolwyr y Swyddfa Bost i ymddangos gerbron cyfarfod o'r Cyngor llawn i egluro eu cynlluniau ar gyfer rhyddfrenio Swyddfeydd Post y Goron yng Nghaergybi a Llangefni.

Fel rhan o'u Cynlluniau Trawsnewid, mae'r Swyddfa Bost yn ceisio rhyddfrenio 73 o Swyddfeydd Post y Goron ar draws y wlad yn cynnwys Caergybi a Llangefni. Mae'r trigolion lleol yn anhapus iawn gyda'r cynlluniau hyn ac mae deisebau mawr wedi eu harwyddo yn y ddwy ardal yn gwrthwynebu'r cynigion. Rydym yn credu, oherwydd pwysigrwydd y mater hwn, y dylai pob Cynghorydd gael y cyfle i sgrwttineiddio cynlluniau'r Swyddfa Bost."

Rhoddi ystyriaeth i'r uchod.

12. DIRPRWYAETHAU

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno er gwybodaeth, adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Arweinydd ers y cyfarfod Cyffredin diwethaf (Rheol 4.4.1.1.2 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith yn y Cyfansoddiad).

13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

14. DATGANIAD POLISI TÂL 2014-15

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol).

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2013

YN BRESENNOL: Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd) (Eitemau 4, 6, 7, 9, 10 a 12, o 3:10 pm ymlaen)
Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair o 2:00 pm hyd at 3:10 pm)

Y Cynghorwyr R Dew, Jeffrey M.Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, A M Jones, Carwyn Jones, H E Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE (o 3.10 pm ymlaen), Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams

WRTH LAW: Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy
Cyfarwyddwr Cymuned
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)
Prif Swyddog Datblygu Twristiaeth
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans a Llinos Medi Huws

CYFLWYNIAD - TOUR DE MÔN

Cyflwynodd y y Prif Swyddog Datblygu Twristiaeth a'r Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden fideo fer ar ras feics y 'Tour de Môn' a gynhaliwyd ar 1 Medi 2013, ynghyd ag adolygiad o'r digwyddiadau a gynhaliwyd ar yr Ynys yn 2013.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd y byddai'r Cadeirydd, sef y Cynghorydd G. O. Jones, ynghyd â'r Cynghorydd Bob Parry OBE yn hwyr ar gyfer y cyfarfod oherwydd eu bod wedi mynd i angladd Mr. Dennis Burns, gŵr y cyn-Gynghorydd Mrs Bessie Burns.

1 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

- 10 Hydref, 2013 (11:30am) (Arbennig)
- 10 Hydref, 2013 (2:00pm)

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau uchod, yn amodol ar nodi y bu'r Cynghorydd Dylan Rees yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn y bore, ond ei fod wedi ymddiheuro am absenoldeb ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd yn y prynhawn.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

3 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR

Estynnodd y Prif Weithredwr ei longyfarchiadau i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r isod:-

Cynhaliodd y Gwasanaethau Oedolion ddau rwydwaith cenedlaethol pwysig ddiwedd y mis diwethaf. Y cyntaf oedd y Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer y Rhwydwaith Cydlynwyr Pobl Hŷn a oedd yn cyfarfod ar yr Ynys ar 18 Tachwedd. Roedd y rhwydwaith yn cynnwys uwch swyddogion o Gyfadran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Adran Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Heneiddio'n Dda yng Nghymru o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Roeddent yn trafod materion megis Awdurdodau Lleol yn arwyddo Datganiad Dilyn [a lofnodwyd gennym ni ym mis Medi 2013] a'r rhaglen o waith ynghylch y Rhwydwaith Heneiddio'n Dda yng Nghymru.

Yn ail, ar 19 Tachwedd, cynhaliodd Ynys Môn gyfarfod o'r Grŵp Llywio Cymunedau Oed-Gyfeillgar sy'n brosiect a ariennir gan INTERREG Iwerddon-Cymru ac sy'n dwyn ynghyd bum partner yn Iwerddon a Chymru i ddatblygu strategaethau sy'n pontio'r cenedlaethau (lleol a rhyngwladol) ac i dreialu gweithgareddau i annog cydlyniant cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol.

Daeth y ddau rwydwaith cenedlaethol at ei gilydd ar gyfer y ddau ddiwrnod ar gyfer te rhwydweithio wedi ei arwain gan Arweinydd y Cyngor, Cadeirydd y Cyngor a'r Eiriolwyr ar gyfer Pobl Hŷn a Gofalwyr. Roedd presenoldeb yno o fudiadau cenedlaethol a chynrychiolwyr ein gwasanaethau lleol ar gyfer pobl hŷn (Heneiddio'n Dda, Fforwm Pobl Hŷn) yn ogystal â'r rheini sy'n manteisio ar ein prosiectau Heneiddio'n Dda yn lleol - er enghraifft Parc Mwd, y Fali a Rhandiroedd ym Menllech.

Ar 28 Tachwedd 2012 ymwelodd Carl Sargeant AC (Gweinidog Llywodraeth Cymru ar Adfywio a Thai) ag un o'r cynlluniau Tai â Chefnogaeth ar gyfer pobl sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau ac alcohol yn Llangefni. Ariennir y Cynllun Eilianfa sydd wedi ei leoli yng nghanol y gymuned gan y Rhaglen Cefnogi Pobl. Roedd yr ymweliad wedi ei drefnu yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru i ymweld â dau gynllun tai â chefnogaeth yng Ngogledd Cymru ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau. Y prosiect arall yr ymwelwyd ag ef oedd un yn Sir y Fflint. Mae £18,194.16 yn cael ei fuddsoddi ar gyfer darparu gwasanaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i ddau berson yn Eilianfa, cynllun y

mae Tai Eryri yn berchennog arno. Darperir y gwasanaeth cefnogaeth gan CAIS fel sefydliad sy'n arbenigo mewn delio â phobl ag anghenion camddefnyddio alcohol a sylweddau.

Treuliodd y Gweinidog amser ar ei ben ei hun gyda'r ddau ddefnyddiwr gwasanaeth i drafod eu profiadau personol a'u profiad o fyw yno. Roedd yn amlwg bod y ddau unigolyn, y cynllun a'r gefnogaeth wedi gwneud argraff dda arno. Roedd yn ganmoliaethus iawn o'r cynllun a'r Rhaglen Cefnogi Pobl ar draws Cymru sy'n gyfrifol am 70% o'r gyllideb flynyddol y mae'n gyfrifol amdani.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i'r Adran Dai mewn perthynas â'r isod:- Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol llwyddiannus iawn gan Cymunedau'n Gyntaf Ynys Môn. Dywedodd Cyfarwyddwr Adran Atal Tlodi Llywodraeth Cymru bod y cynllun hwn yn un blaenllaw ar gyfer Cymru a bod cyllid ychwanegol wedi ei ddarparu i sefydlu cynllun peilot i gael aelwydydd di-waith yn ôl i'r gweithle.

Roedd y Gwasanaeth Tai yn un o'r tri sefydliad tai uchaf trwy Gymru yn y categori 'Tai yn Adfywio Cymunedau' ac maent wedi cael eu cydnabod fel enghreifftiau o arferion da yng nghyhoeddiad newydd y Sefydliad Tai yng Nghymru a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol am eu cynllun sy'n rhoi cymorth ariannol i brynwyr tro cyntaf i brynu eiddo sydd wedi bod yn wag am o leiaf 6 mis.

Roedd y Cynghorydd K. P. Hughes, yr Aelod Portffolio, yn dymuno cofnodi ei werthfawrogiad i staff yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith yn hyn o beth.

Soniodd y Prif Weithredwr fod Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru wedi ei chynnal ym Mona ar ddydd Sadwrn 16 Tachwedd 2013. Roedd yn bleser eu gwahodd yma i Ynys Môn ac roedd Cadeirydd y Cyngor ac Aelodau eraill yn bresennol ar y diwrnod i weld y cystadlu.

Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd fod gwahoddiad i'r Aelodau ddod i Seremoni Gwobrau Staff 2013 a gynhelir am 2:30pm ddydd Gwener.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Sam, mab y Cynghorydd R. Dew a oedd wedi ennill Pencampwriaeth y Byd am godi Pwysau ar 2 Tachwedd 2013 yn Glasgow.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Gwenno Pugh, yn wreiddiol o Benmynydd, ar ennill y gystadleuaeth Fferm Factor ar S4C neithiwr.

Ar nodyn tristach, cydymdeimlodd y Prif Weithredwr â theulu Mr. John Rowlands, cyn-Bennaeth Ysgol Uwchradd Caergybi a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg ar gyfer Cyngor Gwynedd.

Estynnwyd cydymdeimlad hefyd â'r Arglwydd Stanley o Alderley, a fu farw'n ddiweddar yn 86 oed. Chwaraeodd ei deulu rôl flaenllaw yn hanes tref Caergybi. Roedd yr Arglwydd Stanley yn aelod o'r Dŷ'r Arglwyddi tan 1999. Treuliodd dros 40 o flynyddoedd fel Llywydd Bad Achub Caergybi ac ef oedd Noddwr Canolfan Ucheldre yng Nghaergybi a'r Amgueddfa Arforol. Roedd yn aelod hefyd o Gyfeillion Sant Cybi a Chymdeithas Hynafiaethwyr Ynys Môn.

Estynnodd yr Is-Gadeirydd ei gydymdeimlad dwysaf hefyd â Mrs Bessie Burns, cyn-Gynghorydd a chyn-Gadeirydd y Cyngor Sir ar golli ei gŵr Dennis yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod Etholedig neu aelod o staff a oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr Aelodau mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o barch.

4 **CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.2 Y CYFANSODDIAD**

- Cyflwynwyd - y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Bob Parry, OBE, i Arweinydd y Cyngor:-

“A ydyw’r Cyngor yn fodlon sefydlu panel trawsbleidiol i fod yn barod i ymateb i adroddiad Williams ar leihau nifer y cynghorau yng Nghymru?”

Yn ei ymateb dywedodd Arweinydd y Cyngor:-

“Rwy’n meddwl ei fod yn beth call iawn i sefydlu Panel Trawsbleidiol. Rwy’n ystyried ei fod ychydig yn gynamserol. Adolygiad ydyw o’r sector cyhoeddus ac nid gostwng nifer y Cynghorau.”

Gofynnwyd y cwestiwn atodol isod gan y Cynghorydd Bob Parry, OBE:-

“Rwy’n parhau i lynu wrth yr un cwestiwn oherwydd rwy’n credu ei bod yn bwysig ein bod yn barod, oherwydd bod rhai pethau yn yr adroddiad sy’n ymwneud â syniadau ynghylch gostwng nifer y Cynghorau. Rwy’n meddwl bod angen i ni sefydlu Panel pan fo’r amser yn iawn.”

Yn ei ymateb dywedodd yr Arweinydd:-

“Rwy’n meddwl eich bod wedi fy nghamddeall. Rwy’n credu y byddai’n beth call i ni ei wneud ac rwy’n cytuno ac mi fyddwn yn gwneud hynny. Diolch.”

- Gofynnodd y Cynghorydd Bob Parry OBE y cwestiwn isod i’r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai:-

“Faint o denantiaid tai cyngor sydd wedi cael eu troi o’u cartrefi oherwydd methu â thalu’r dreth ystafell wely?”

Yn ei ymateb dywedodd y Cynghorydd K. P. Hughes, Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai:

“Mewn ymateb i’ch cwestiwn, nid ydym hyd yma wedi troi unrhyw denantiaid allan o’u cartrefi oherwydd eu hanallu i dalu’r dreth ystafell wely. Dim ond pan fo popeth arall wedi methu y byddwn yn troi tenantiaid allan ac mae’r Awdurdod ac asiantaethau partner yn gwneud popeth y gallont i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cadw eu tenantiaethau. Cyn i ni fynd i lawr y lôn hon bydd yr Adran Dai yn cyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor Gwaith.”

Gofynnwyd y cwestiwn atodol isod gan y Cynghorydd Bob Parry, OBE:-

“Diolch. Rwy’n falch y bydd adroddiad yn dod i’r Pwyllgor Gwaith oherwydd rwy’n meddwl bod rhai Cynghorau eisoes wedi cymryd camau i geisio goresgyn y broblem hon. Ond y cwestiwn yr oeddwn yn mynd i’w ofyn oedd pan fo’r Adran Dai yn gosod tai ydyn nhw’n fwy gofalus i beidio â gosod tai tair ystafell wely i un person?”

Yn ei ymateb dywedodd y Cynghorydd K. P. Hughes:-

“Ydynt. Rwy’n credu bod rhaid iddynt fod yn fwy gofalus am resymau amlwg oherwydd nid ydym am i’r broblem hon godi.”

• Cyflwynwyd – y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Trevor Lloyd Hughes i’r Aelodau Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai:-

“Buaswn yn hoffi gwybod, mewn manylder, beth yw’r diweddaraf ynghylch cau cartrefi henoed y Cyngor Sir yn Ynys Môn yn arbennig cartref Garreglwyd, Caergybi, gyda manylion am gyfarfodydd a gafwyd gyda staff y cartref i egluro’r sefyllfa iddynt”.

Yn ei ymateb dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, y Cynghorydd K. P. Hughes:-

“Fe benderfynodd y Cyngor yn ystod Gorffennaf 2013 i dderbyn y negeseuon a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghori rhwng Hydref-Rhagfyr 2012.

Penderfynwyd cadw statws cyfredol y Cartrefi Preswyl a sefydlu prosiect er mwyn sicrhau y byddai cynlluniau’n cael eu datblygu ynglŷn â bwriadau’r Cyngor i’r dyfodol mewn perthynas â llety addas a’r ddarpariaeth gymunedol fydd ar gael.

Ymgynghorwyd â’r holl breswylwyr yn ein cartrefi preswyl yn ystod mis Mai i gadarnhau bwriad y swyddog i gyflwyno argymhellion i’r Cyngor ac na fyddai yna unrhyw newid mewn perthynas â’u gofal. Cadarnhawyd y byddem yn cysylltu ymhellach â hwy wrth i’r rhaglen ddatblygu.

Sefydlwyd y Bwrdd Prosiect fel rhan o Raglen Drawsnewid y Cyngor sy’n blaenoriaethu’r gwaith o ddatblygu Gwasanaethau Oedolion.

O fewn y rhaglen hon, rhoddwyd blaenoriaeth i:

- *Datblygu Tai Gofal Ychwanegol – Ardal Amlwch*
- *Cryfhau Gwasanaethau Galluogi sy’n grymuso unigolion i fyw yn eu cartrefi.*

O fewn y rhaglen bydd y cynlluniau manwl ynglŷn â’r uchod yn cael eu cyflwyno i’r Bwrdd Rhaglen ddiwedd mis Ionawr fel y gall y Cyngor llawn eu hystyried rhwng Chwefror a Mawrth. Ynghyd ag ystyriaethau capasiti, rhoddwyd blaenoriaeth i’r rhaglenni uchod ond bwriedir hefyd ystyried anghenion tai gofal ychwanegol ardal

Llangefni ac wedyn de'r Ynys yn ogystal. Bwriedir hefyd ystyried y gwasanaethau dementia gyda'r rhaglen hon yn cychwyn yn y Gwanwyn.

Penderfynodd y Cyngor (Gorffennaf 8) i gynnal statws mynediad presennol Cartref Garreglwyd, sef peidio â derbyn lleoliadau parhaol, ond annog defnyddio'r cartref ar gyfer gofal ysbaid:

"Cadarnhau'r defnydd presennol o 6 chartref preswyl yr Awdurdod. Mae hyn wedi cynnwys cyfyngu'r defnydd o unrhyw lefydd gweigion yn Garreglwyd, Caergybi ar gyfer gofal ysbaid yn unig."

Gwnaed y penderfyniad hwn yn seiliedig ar osgoi rhoi oedolion bregus mewn sefyllfa o gael eu lleoli tra roedd unrhyw amheuaeth yn bodoli am ddyfodol y cartref. Y bwriad oedd sicrhau cysondeb i'r preswylwyr cyfredol tra bod y Bwrdd Rhaglen yn ystyried y rhaglen waith yn ei chyfanrwydd ac yn adrodd yn ôl yn seiliedig ar wybodaeth. Y bwriad yw cyflwyno gwybodaeth bellach ynglyn â'r sefyllfa fel rhan o'r rhaglen drawsnewid o fewn y flwyddyn ariannol bresennol hon.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda staff ym mhob cartref preswyl dros y cyfnod diweddar. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r undebau yn ogystal bob pythefnos.

Er yr heriau sy'n cael eu gosod gan y rhaglen hon rydym yn credu y byddwn yn gallu cadw at yr amserlen a gytunwyd o fewn trefniadau'r Bwrdd."

Gofynnwyd y cwestiwn ategol canlynol gan y Cynghorydd T Lloyd Hughes:-

"Nid yw'r staff yn y cartrefi hyn yn gwybod beth sydd yn digwydd. Nid yw uwch swyddogion yn yr adran wedi bod yn ymweld â'r cartrefi. Rydych chi'n siarad am ofal ysbaid yn mynd i Garreglwyd - faint yn fwy o wlaŷu ydych chi yn ei symud o Garreglwyd? Meddylwch chi, pe baech chi'n gweithio yna, sut y byddech chi'n teimlo am yr hyn sy'n mynd ymlaen? Does neb yn gwybod. Mae dau wely eisoes wedi mynd oddi yno."

Dyweddodd y Cynghorydd K. P. Hughes wrth ateb:-

"Oherwydd nad yw'r wybodaeth gennyf i law, fe ddof yn ôl atoch chi yn ysgrifenedig yn ystod y pythefnos nesaf."

5 COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYAETH

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o Fwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth Ynys Môn a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2013.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cofnodion.

6 CYNLLUN CORFFORAETHOL 2013-17

Cyflwynwyd – Adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar y Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2013-17 oedd yn cynnwys nod y Cyngor, y meysydd y byddai'n

canolbwyntio arnynt a'r canlyniadau y byddai'r Awdurdod yn gweithio tuag atynt er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau dinasyddion Ynys Môn dros y 4 blynedd nesaf.

Cafwyd adroddiad llafar gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol bod y Pwyllgor Gwaith ar 2 Rhagfyr 2013, yn dilyn ystyried y Cynllun wedi penderfynu argymhell i'r Cyngor Sir :-

“Ei fod yn derbyn bod y Cynllun Corfforaethol drafft yn gosod allan raglen y Cyngor am weddill y tymor hyd at 2017 ac awdurdodi swyddogion, mewn cydweithrediad â'r Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, i wneud newidiadau bychan cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.”

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhelliad uchod a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith.

7 AMSERIAD CYFARFODYDD

Adroddwyd gan Bennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democraidaidd - yn unol â chyfarwyddyd statudol, roedd angen i'r Cyngor gynnal arolwg ymysg Aelodau ynglŷn â'r amserau o'r dydd y mae cyfarfodydd Awdurdod Lleol yn cael eu cynnal, gorau oll yn dilyn ethol Cyngor newydd. Gofynnwyd am safbwyntiau'r Aelodau a'r Aelodau cyfetholedig gan ofyn iddynt roi mewn trefn ranc eu dewis o amseroedd ar gyfer cyfarfodydd, sef 10:00am, 2:00pm, 4:00pm a 6:00pm. O'r atborth a dderbyniwyd gwelwyd ffafriaeth glir i gyfarfodydd barhau naill ai am 10:00am neu 2:00pm. Roedd manylion am y trefniadau mewn Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru hefyd wedi eu rhestru yn yr adroddiad.

Dywedodd Arweinydd Grŵp Plaid Cymru bod rhai o'i Aelodau yn ei chael yn anodd oherwydd ymrwymadau gwaith i fynychu cyfarfodydd y Cyngor yn ystod y dydd. Os oedd y Cyngor eisiau i'r Cynghorwyr newydd hyn sefyll unwaith yn rhagor yn yr etholiad nesaf, yna byddai'n rhaid i'r Cyngor gymryd mwy o sylw o'u hanghenion. Roedd yn credu y dylai Arweinyddion y Grwpiau a'r UDA drafod y mater ymhellach ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir mor fuan ag sy'n bosibl.

PENDERFYNWYD gohirio ystyried y mater a'i fod yn cael ei ystyried ymhellach gan yr Arweinyddion Grwpiau a'r UDA (yn cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb) i weld pa mor ymarferol oedd galw rhai cyfarfodydd naill ai am 4:00pm neu 4:30pm. Byddai canlyniad y trafodaethau hynny'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor Sir ar y cyfle cyntaf.

8 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cafwyd adroddiad gan Bennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democraidaidd - bod angen i'r Cyngor adolygu trefniadau cydbwysedd gwleidyddol eu pwyllgorau yn dilyn derbyn hysbysiad bod un Aelod wedi peidio â bod yn Aelod o'r Grŵp Llafur. Roedd y newidiadau arfaethedig wedi eu hamlygu ar y matrices oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Yn unol â phrotocolau rheolaeth wleidyddol, roedd y trefniadau rheolaeth wleidyddol newydd wedi eu trafod ag Arweinyddion y Grwpiau.

Holodd y Cynghorydd Dylan Rees a oedd yn arfer dda ai peidio i gael dau Gyngorydd Llafur ar y Pwyllgor Gwaith, o gofio mai dim ond dau Aelod oedd gan y Grŵp Llafur ar y Cyngor allan o gyfanswm o 30? A oedd angen i'r Pwyllgor Gwaith ystyried hyn os oedd cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol?

Mewn ymateb dywedodd yr Arweinydd y byddai'n trafod y mater gyda'r Dirprwy Arweinydd ac yn anfon ymateb ysgrifenedig ar hynny i'r Cynghorydd Dylan Rees.

PENDERFYNWYD

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrannwyd i bob un o'r Grwpiau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a nifer y seddau a roddir trwy arfer a defod i Aelodau nad ydynt yn destun cydbwysedd gwleidyddol fel oedd i'w weld yn y matrices;**
- **Yn unol ag argymhelliad (i) uchod, bod y Cyngor yn dirprwyo i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinyddion y Grwpiau, i benderfynu ar y dyraniad o seddau i Aelodau digyswllt oedd yn codi o'r newidiadau hyn a rhoi'r wybodaeth honno i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor.**
- **Gofyn i Arweinydd y Grŵp Llafur ddarparu manylion am Aelodaeth y Pwyllgorau i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor mor fuan ag sy'n bosibl yn unol â'r newidiadau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn.**

9 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD (PARA 3.5.3.15.5) AC I'R RHEOLAU GWEITHDREFN CYNLLUNIO (ADRAN 4.6 Y CYFANSODDIAD)

a) Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan y Penaneth Rheoleiddio a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fel oedd wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 21 Hydref 2013.

b) Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 21 Hydref 2013, wedi penderfynu argymhell i'r Cyngor sir *“bod y newidiadau i'r rheolau yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn yn cael eu gwneud a bod awdurdod yn cael ei roi i swyddogion wneud y newidiadau perthnasol i'r Cyfansoddiad”*.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhelliad uchod a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith.

10 GWNEUD Y NEWIDIADAU I'R RHEOLAU GWEITHDREFN CYNLLUNIO (ADRAN 4.6 Y CYFANSODDIAD) YN BARHAOL

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fel oedd wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 4 Tachwedd 2013.

Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd 2013 wedi penderfynu argymhell i'r Cyngor Sir –

- *Ei fod yn gwneud y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn rhai parhaol, sef egluro'r ceisiadau hynny gan swyddogion a chan berthnasau, aelodau a swyddogion y dylid eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad;*
- *Peidio â gwneud yn barhaol y newidiadau i gyfyngu Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i gymryd rhan yn y cyfarfod dim ond os ydynt wedi mynychu'r holl gyfarfodydd blaenorol ar yr eitem honno (gan gynnwys unrhyw ymweliad safle swyddogol).*
- *Peidio â gwneud yn barhaol y newidiadau sy'n rhwystro Aelod Lleol ar y Pwyllgor rhag pleidleisio, cynnig neu eilio cais yn ei ward."*

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion uchod a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith.

11 **RHYBUDD O GYNIGIAD A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorydd Aled Morris Jones wedi ei gydarwyddo gan y Cynghorydd Bob Parry OBE, Kenneth P. Hughes, Dylan Rees, a Jim Evans.

"Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn roi Rhyddid y Sir i'r Llynges Brydeinig a Chymdeithas y Llynges Fasnachol.

Mae hyn i gydnabod iddynt gadw'n ddiogel y ffyrdd mordwyo a'r fasnach sy'n bodoli rhwng y Deyrnas Gyfunol a gweddill y byd. Dylid ystyried y seremoni Rhyddfrait hon fel digwyddiad i gofio Rhyfel Mawr 1914-18 a Choffáu 70 o flynyddoedd ers Brwydr Môr Iwerydd."

Siaradodd y Cynghorydd A. Morris Jones o blaid y Rhybudd o Gynnig.

PENDERFYNWYD yn unfrydol i gytuno â'r cais, a bod swyddogion yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

12 **DIRPRWYAETHAU**

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad yn amlinellu unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, neu'r Arweinydd ers cyfarfod cyffredin diwethaf (Rheol 4.4.1.1.2 o Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith yn y Cyfansoddiad).

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.35 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES
CADEIRYDD**

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 27 Ionawr 2014

YN BRESENNOL: Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, H E Jones, R LI Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers ac Ieuan Williams

Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151
Pennaeth Gwasanaethau Democraidd Dros Dro
Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau (GJ)
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Carwyn Jones, R.Meirion Jones, Alwyn Rowlands ac Dafydd Rhys Thomas
Dirprwy Brif Weithredwr

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim i'w ddatgan.

2 **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Estynnodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau a'r Swyddogion, ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorwyr R Meirion Jones a Dafydd Rhys Thomas am adferiad llawn yn dilyn salwch.

3 **CYNLLUN GOSTWNG TRETH GYNGOR LEOL 2014-15**

Adroddwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) – Ar 27 Tachwedd 2013 cymeradwyodd Cynulliad Cymru ddau set newydd o reoliadau: Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013. Mae'r Rheoliadau 2013 hyn yn pennu prif nodweddion y Cynllun i'w mabwysiadu gan yr holl Gyngorau yng Nghymru o 2014-2015 ymlaen.

Bu'n ofynnol i'r Cyngor wneud cynllun ar gyfer 2014/2015 o dan ofynion y rheoliadau er y ffaith y byddai cynllun diofyn yn dod i rym hyd yn oed pe bai'r Cyngor yn methu â gwneud cynllun. Roedd yr ymrwymiad yn ddyletswydd statudol ac yn berthnasol hyd yn oed pe bai'r Cyngor yn dewis peidio â gosod unrhyw un o'r digresiynau oedd ar gael iddo.

Yn 2013/2014, nid oedd unrhyw arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r elfennau disgresiynol.

Roedd Rheoliadau 2013 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i ystyried ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fyddai'n adolygu ei gynllun neu yn dod â chynllun arall yn ei le. Rhaid i'r Awdurdod wneud unrhyw newidiadau neu newid cynllun heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y dânt i rym.

Roedd y goblygiadau ariannol wedi eu hamlinellu yn yr adroddiadau cyllidebol i'r Pwyllgor Gwaith. Cost ragnodedig y cynllun arfaethedig yn 2014/15 oedd rhwng £5.51m a £5.61m, oedd yn £350k – £460k yn fwy na'r grant o £5.15m.

Roedd darpariaeth gyllidebol o £400k yn cael ei gynnig i gyfarfod â'r diffyg hwn fyddai'n cael ei fonitro mewn adroddiadau monitro'r gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith. Nid oedd yn ystyried bod y diffyg yn dderbyniol nac yn gynladwy ac roedd yn gobeithio y byddai'r neges hwn yn cael ei gyfleu i'r Cynulliad.

PENDERFYNWYD

- **Nodi gwneud Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan Lywodraeth Cymru ar 27 Tachwedd, 2013 a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Treth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynlluniau Diofyn) (Cymru) Diwygiad 2014 ("y Rheoliad Diwygio") gan Gynulliad Cymru ar 14 Ionawr, 2014).**
- **Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd gan y Cyngor ar gyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oedd wedi ei amlinellu yn Atodiad B.**
- **Mabwysiadu'r Cynllun fel oedd i'w weld yn Atodiad A.**
- **Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i ddiwygio'r Cynllun Cefnogaeth Treth Gyngor Leol 2014/2015 pe bai angen hynny i gymryd i ystyriaeth unrhyw reoliadau a gaiff eu pasio wedi hynny gan Lywodraeth Cymru yn diwygio'r Cynllun.**

4 AMSER CYFARFODYDD

Adroddwyd gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd – Bod adroddiad ar amser cyfarfodydd y Cyngor wedi ei gyflwyno i'r Cyngor ar 5 Rhagfyr, 2013.

Roedd yr ymarferoldeb o alw rhai cyfarfodydd naill ai am 4:00pm neu 4:30pm wedi ei ystyried gan Arweinyddion Grwpiau a'r UDA ac roedd yn cael ei gefnogi. Roedd Arweinyddion y Grwpiau yn argymhell y dylid treialu trefniadau gyda'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini.

Gwnaed Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol hefyd ar yr effaith debygol o ddechrau cyfarfodydd am 4:00pm a 4:30pm, gyda manylion am hynny i'w gweld yn Para 3.1 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- **Cefnogi'r bwriad o alw rhai cyfarfodydd am 4:00pm a 4:30pm a bod trefniadau'n cael eu trafod gyda'r Cadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgorau perthnasol a bod adroddiad diweddarau'n cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd o'r Cyngor ar 27 Chwefror, 2014.**
- **Nodi canfyddiadau'r asesiad effaith cydraddoldeb cychwynnol;**
- **Bod trefniadau'n cael eu treialu am gyfnod o 12 mis gan ddechrau yn Ebrill, 2014.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.20 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2013

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Prif Weithredwr
	Pwyllgor Gwaith: Y Cyngorwyr R Dew, K P Hughes, Aled M Jones, J A Roberts, Alwyn Rowlands.
	Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyfarwyddwr Cymuned Rheolwr Gwella Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant (JD)
HEFYD YN BRESENNOL:	Mr Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru)
WRTH LAW:	Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cyngorwyr H E Jones a R Meirion Jones; Mr Marc Roberts (Arolygydd yr Awdurdod Lleol, AGGCC).

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim i'w datgan.

2. YMDDIHEURIADAU

Fel y cant eu nodi uchod.

3. COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2013.

4. Y DIWEDDARAF AR DDATBLYGU BWRDD ADFER ADDYSG YNYS MÔN

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn rhoi i'r Aelodau y diweddaraf ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu ôl-arolwg. Dywedwyd bod system gyfrifiadurol (Cycle) wedi cael ei datblygu mewn ymgynghoriad gyda swyddogion o'r Uned Perfformiad i reoli perfformiad o ran cynnydd. Roedd yr adroddiad o'r system Cycle yn manylu ar y camau a gymerwyd ac roedd yn ddogfen sylweddol. Cafwyd crynodeb o'r adroddiad, wedi ei gyfatebu gyda'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu a'r blaenoriaethau y bu Estyn yn craffu arnynt yn ystod eu hymweliad ar 7/8 Tachwedd 2013 yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Yn ystod yr ymweliad hwnnw, canolbwyntiodd Estyn ar argymhellion 1,2 a 5. Roedd y Cyfarwyddwr o'r farn y gwnaed cynnydd da yn y cyswllt hwnnw ond cydnabu bod mwy o waith i'w wneud. Disgwylir y bydd Estyn yn adrodd yn ôl ar yr ymweliad i'r Awdurdod ymhen y 3 wythnos nesaf.

Roedd y ddau argymhelliad cyntaf a nodwyd gan Estyn yn cyfeirio at adolygu safonau yn yr holl gamau allweddol, gwella llythrennedd ymarferol erbyn diwedd Cyfnod

Allweddol 2 a gwella cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol. Yn Atodiad 2 o'r Adroddiad, cafwyd gwybodaeth gefnogol ychwanegol yn amlinellu perfformiad cyfredol yr Awdurdod yn y meysydd allweddol hyn.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cyfarwyddwr am ei adroddiad a gellid gweld o'r dystiolaeth a gafwyd bod pethau'n mynd rhagddynt mewn modd cadarnhaol.

Gofynnodd y Cynghorydd K P Hughes a oedd Estyn wedi ymchwilio ymhellach i ganfod yr hyn a oedd yn cael ei wneud mewn gwledydd eraill i godi safonau addysgol?

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi ymhen yr ychydig wythnosau nesaf yn dangos lle'r oedd Cymru yn sefyll o gymharu â gwledydd eraill o ran addysg. Un o'r pethau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ei wneud oed edrych ar yr ymchwil a wnaed mewn gwledydd eraill a'r hyn a oedd wedi llwyddo yn y gwledydd hynny. Yr hyn a oedd yn bwysig oedd ein bod yn mabwysiadu'r hyn y gellir ei ystyried fel ymarfer da mewn awdurdodau a gwledydd eraill, eu defnyddio a'u haddasu i gwrdd ag anghenion yn lleol yn Ynys Môn ac ar draws Gogledd Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o ymchwil yn y cyswllt hwn ac wedi edrych yn benodol ar yr hyn y llwyddwyd i wneud yng Nghanaada.

Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd bod cynnydd da yn parhau i gael ei wneud mewn perthynas â holl argymhellion Estyn.

5. Y DIWEDDARAF AR Y CYNNYDD YN Y GWASANAETHAU PLANT

Cyflwynwyd - adroddiad cynnydd gan y Rheolwr Gwella Gwasanaeth yn erbyn y Cynllun Darparu Gwasanaeth.

Dywedwyd - Bod y Gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal y gwelliant yn y gwasanaethau yn wyneb y pwysau sydd wedi dychwelyd ar y gweithlu oherwydd trosiant staff (gan gynnwys uwch ymarferydd a Rheolwr Tîm). Fel y dywedwyd yn yr adroddiad diwethaf i'r Bwrdd, roedd y trydydd chwarter hwn yn debygol o fod yn hollbwysig o ran sefydlu i ba raddau yr oedd y gwelliannau a wnaed llynedd wedi gwreiddio.

Cyfeiriwyd at fanylion o gynnydd arwyddocaol ym Mharagraff 2 yr adroddiad ac ym Mharagraff 3 yr adroddiad, cyfeiriwyd at y meysydd hynny sy'n parhau i beri pryder a her.

Roedd y dystiolaeth, a gadarnhawyd yn y Llythyr Blynyddol diweddaraf gan AGGCC yn nodi fod y gwasanaeth wedi llwyddo i newid a bod y newid hwnnw'n cael ei gynnal. Roedd fframwaith sylfaenol y tîm rheoli wedi ei sefydlu i raddau helaeth, ynghyd â phrosesau a gweithdrefnau gwell ac, ar y cyfan, gweithlu brwdfrydig. Fodd bynnag, erys risgiau i berfformiad y gwasanaeth oherwydd problemau trosiant o fewn y gweithlu, gan gynnwys y rheolwyr.

Roedd hyder cyffredinol y gellir nodi a rheoli problemau a bod unrhyw ostyngiadau mewn perfformiad yn ostyngiadau ac nid yn arwyddion o ddirywiad yn y tymor hwy yn parhau. Roedd modd i'r tîm rheoli ragweld nifer o'r problemau a hyd yn oed gydag adnoddau neu gapasiti cyfyngedig, gynllunio camau gweithredu i roi sylw i'r problemau mewn ffordd sydd nid yn unig yn cynnal cydlyniant y Gwasanaeth, ond hefyd yn sicrhau bod modd cwrdd â'r gofynion o ran rheoli a chwrdd â dangosyddion perfformiad yn effeithiol. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth, ynghyd ag uwch reolwyr, yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn agos a byddai'n cadw'r Cyfarwyddwr Cymuned i fyny ar ddatblygiadau.

Diolchodd y Cyngorydd K P Hughes, yr Aelod Portffolio am yr Adran i'r tîm am y cynnydd a wnaed ac roedd yn gwerthfawrogi eu hymdrechion a'u cyfraniad i'r cynnydd hwnnw. Pwysleisiodd unwaith eto bwysigrwydd gwelliant parhaus a'i nod oedd i'r gwasanaeth fod y gorau yng Nghymru.

Soniodd yr Arweinydd ei fod wedi ymweld â'r Uned yr wythnos diwethaf yng nghwmni'r Aelod Portffolio a'i fod yn falch o glywed bod ysbryd y staff yn dda.

Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

Fel mater ategol, gofynnodd y Cyngorydd K P Hughes a oedd o hyd i'r Bwrdd hwn gyfarfod bob mis yn hytrach na bob dau fis?

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn amlwg erbyn hyn nad oedd angen i'r Bwrdd gyfarfod bob mis oherwydd nad oedd llawer i adrodd arno. Unwaith yr oedd yr Awdurdod wedi cyrraedd lefel benodol o ran cynnydd, yna roedd cynnydd pellach yn fater mwy graddol dros gyfnod hwy o amser.

Sefydlwyd y Bwrdd hwn yn wreiddiol gan y Comisiynwyr oherwydd pryderon mewn tri maes, sef Llywodraethu Corfforaethol, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y Comisiynwyr yn teimlo ar y pryd bod angen iddyn nhw gadw llygad ar berfformiad bob mis. Ond ers hynny, roedd system newydd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y Byrddau Rhaglen ac roedd Bwrdd Rhaglen penodol wedi cael ei sefydlu ar gyfer Rhagoriaeth Gwasanaeth a oedd fwy neu lai yn dyblygu gwaith y Bwrdd hwn.

Y bwriad wedi i'r Comisiynwyr adael oedd cadw'r Bwrdd hwn am gyfnod penodol ac adolygu'r sefyllfa ymhen 6 mis o ran a fyddai'r gwaith wedi cael ei ymgorffori o fewn gwaith y Byrddau Rhaglen. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod wedi derbyn rhagrybudd gan SAC ddoe bod Ynys Môn wedi cael ei dewis fel un o 6 Awdurdod yng Nghymru a fydd yn cael asesiad llywodraethu corfforaethol gan SAC yn y flwyddyn ariannol newydd.

Oherwydd na fyddai llawer i'w adrodd arno i'r cyfarfod nesaf a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 19 Rhagfyr, roedd y Prif Weithredwr o'r farn y dylid gohirio'r cyfarfod hyd fis Ionawr pryd y byddai'r Awdurdod wedi derbyn cadarnhad gan SAC ynglŷn â'r asesiad. Gallai'r cyfarfod ym mis Ionawr wedyn ystyried sut yr oedd yr Awdurdod am ymdrin gyda'r asesiad a gallai ystyried hefyd a ddylid trosglwyddo'r agweddau addysg a gwasanaethau cymdeithasol i'r Byrddau Rhaglen. Byddai'n dymuno trafod y senario hwnnw gyda'r UDA yr wythnos nesaf. O ganlyniad i adroddiad llywodraethu corfforaethol, aethpwyd â'r Awdurdod i fesurau arbennig. Nid oedd yr Awdurdod eisiau cael ei hun yn yr un sefyllfa eto a rhaid rhoddi blaenoriaeth o'r herwydd i gwrdd â gofynion yr asesiad hwnnw yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn bwriadu trafod yn y cyfarfod nesaf o'r UDA, briodoldeb cynnull cyfarfodydd misol o'r Bwrdd Gwella. Roedd o'r farn bod cynnydd digonol wedi cael ei wneud ers sefydlu'r Bwrdd gan y Comisiynwyr a bod adroddiadau yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Byrddau Rhaglen ar y gwelliannau sylweddol a wnaed o ran adfer addysg a'r gwasanaethau plant.

Dywedodd Mr Andy Bruce, SAC fod ef a Huw Lloyd Jones wedi gofyn i Ynys Môn gael ei rhoi yn rhan olaf y flwyddyn ariannol nesaf ac y gallai'r asesiad fod cyn hwyred â Chwefror 2015. Byddai'r asesiad yn drwyadl ac yn gadarn a byddai oddeutu 6 maes allweddol i'w gwerthuso. Byddai'n well ganddo ef asesiad hwyr er mwyn caniatáu i'r

cynnydd barhau ar Ynys Môn yn y cyfamser. Roedd wedi cael y cyfarfodydd o'r Bwrdd Gwella hwn yn ddefnyddiol iawn a chytunodd bod angen adolygu defnyddioldeb ac amllder y cyfarfodydd. Roedd o yn teimlo fod y Cyngor yn wir wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf.

Nododd y Bwrdd Gwella y bwriad i adolygu amllder y cyfarfodydd ac y byddai'r cyfarfod nesaf a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 19 Rhagfyr, 2013 yn cael ei ohirio hyd fis Ionawr 2014. Yn y cyfarfod hwnw, byddid yn ystyried asesiad corfforaethol SAC.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40 am

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD**

CYNIGION CYLLIDEBOL TERFYNOL Y PWYLLGOR GWAITH 2014/15

Mae cynigion cyllidebol terfynol y Pwyllgor Gwaith yn ymddangos yn:

- Tabl A - Strategaeth Cyllideb Refeniw y Tymor Canol;
- Tabl B - Cyllideb Refeniw 2014/15;
- Tabl C - Cyllideb Cyfalaf 2014/15;
- Tabl Ch - Dangosyddion Pwyllgor a Thrysorlys.

Mae'r manylion isod yn dilyn gofynion Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb:-

(i) **os ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol ac ydyw'r gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r strategaeth honno, a manylion am unrhyw wahaniaethau**

Ffurfiwyd y gyllideb arfaethedig o fewn Datganiad a Strategaeth Cyllideb y Pwyllgor Gwaith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith 16 Rhagfyr 2013. Fe'i diweddarir yn awr ar gyfer y Strategaeth Cyllideb Refeniw y Tymor Canol sy'n ymddangos yn Nhabl A.

(ii) **y Dreth Gyngor arfaethedig am y flwyddyn**

Mae'r Dreth Gyngor arfaethedig yn ffigwr o £981.41 yn ôl Band D, cynnydd o 4.5% ar 2013/14. Yn ei braesept mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi cytuno ar gynnydd 2.0%. O ganlyniad i braesept y Cyngorau Tref neu Gymuned bydd y cyfanswm sy'n daladwy gan drethdalwyr yn codi 4.8%.

(iii) **trosglwyddiadau arfaethedig i'r arian wrth gefn ac ohonynt**

Nid oes unrhyw gynigion i wneud cyfraniadau i, neu ddefnyddio balansau cronfa'r Cyngor yn 2014/15.

(iv) **crynodeb o'r gwariant arfaethedig fesul gwasanaeth**

Cyflwynir manylion yn Nhabl B ar gyfer y gyllideb refeniw a gwelir manylion y gyllideb gyfalaf yn Nhabl C.

(v) **manyion am newidiadau sylweddol i gyflenwi gwasanaeth oherwydd y gyllideb**

Mae'r gyllideb yn cynnwys arbedion gwasanaeth o £6.263m. O ystyried maint yr arbedion sydd ei angen yn 2014/15 a thu hwnt, bydd disgwyliad ar draws nifer o wasanaethau bydd newidiadau i'r ffordd y'u darperir.

Amddiffynnwyd adnoddau i ysgolion yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2014/15, i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2014/15, 2016/17 a 2017/18, bydd angen ail-ddylunio ac ail-gyflunio pob gwasanaeth, i raddau mwy neu lai, fydd yn arwain at newid yn y ffordd darperir gwasanaethau. Gall hyn gael effaith ar y defnyddwyr gwasanaeth presennol a rhai newydd.

Cyflwynwyd gan y Cyngor dri Bwrdd Rhaglen a Strategaeth Effeithlonrwydd a fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni targedau effeithlonrwydd corfforaethol unwaith ceir cytundeb gan y Pwyllgor Gwaith ar y cynlluniau i gwrdd â'r bwch cyllidebol a ragwelir. Bydd cyflwyno systemau newydd o ddefnyddio technoleg ac asedau gwell hefyd yn cynorthwyo'r broses yma yn ystod 2014/15.

(vi) **i ba raddau y mae'r cynigion yn gwneud lwfans ar gyfer adroddiadau Pwyllgorau**

Lluniwyd y cynigion terfynol ar ôl ymgynghori gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini a chymeryd ystyriaeth o'u hymateb.

(vii) i ba raddau mae'r cynigion yn gwneud lwfans am waith ymgynghori a wnaed

Daw'r cynigion yn dilyn ymgynghori ar y cynigion cyllideb fel a ganlyn:-

- Pwyllgor Gwaith drwy gydol y broses cyllideb;
- Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym Medi 2013;
- Aelodau etholedig, drwy sesiynau gweithdai yn Nhachwedd 2013;
- Pwyllgorau Sgriwtini yn eu Cyfarfodydd Ionawr 2014;
- Fforwm Ysgolion ar 27 Ionawr 2014;
- Cynghorau Tref a Chymuned - 23 Ionawr 2014.

(viii) manylion am wahaniaethau sylweddol eraill rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol

Y prif wahaniaethau rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol yw:-

1	Gostyngiad yn y swm a roddir i amddiffyn cyllidebau Ysgolion i £172,000
2	Dileu yr arian wrth gefn arfaethedig ar gyfer diswyddo o £1m o gyllideb 2014/15
3	Gostyngiad o £250,000 yn yr arian wrth gefn ar gyfer newid demograffeg
4	Cynnydd o £181,000 yng nghyllideb a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cytundeb Canlyniad
5	Cynnydd yn y gyllideb o £567,000 i gyllido diwygio lles, gan gynnwys cynyddiadau i'r gost i'r Cyngor o'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
6	Y dreth gyngor i godi 4.5%, i lawr o 5%.

(ix) cynigion ar gyfer benthyca

Mae'r cynigion ar gyfer benthyca a buddsoddi yn ymddangos mewn adroddiad ar wahân gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Dangosyddion Pwylllog fel yn Nhabl Ch.

(x) unrhyw faterion statudol eraill i'w penderfynu gan y Cyngor llawn

Gweler adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

CYNLLUN ARIANNOL 2014/15 I 2017/18

	2014/15 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000	2017/18 £'000
Cyllideb Blwyddyn Blaenorol	129,253	126,670	126,280	126,221
Chwyddiant Ysgolion ac Amddiffyniad	172	172	172	172
Cynyddiadau costau	2,866	2,432	2,380	2,325
Newidiadau demograffeg	250	500	500	500
Cyllido cyfalaf a Llog	598	171	171	171
Arfarnu Swyddi	1,300	700	700	700
Arian wrth gefn diswyddo	(1,000)	1,000	0	0
Ail-lunio Cyllideb	(975)	0	0	0
Pwysau a nodwyd	567	700	700	700
Arian wrth gefn Cyffredinol	(57)	0	0	0
Twf arall	459	500	500	500
Arbedion	(6,263)	0	0	0
Cyfraniad i'r Arian wrth gefn	(500)	0	0	0
Bwlch Cyllido	0	(6,565)	(5,182)	(5,036)
	126,670	126,280	126,221	126,253
Cyllidwyd gan				
LIC	97,158	94,714	93,267	91,849
Dreth Gyngor	29,512	30,840	32,228	33,678
	126,670	126,280	126,221	126,253

**CYNGOR SIR YNYS MÔN
CYLLIDEB REFENIW 2014/15
CYNIGION TERFYNOL Y PWYLLGOR GWAITH**

	CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2014/15
	£'000
Cyfadran	
Dysgu Gydol Oes (yn cynnwys ysgolion)	47,814
Gwasanaethau Cymunedol	27,508
Datblygu Cynaliadwy	19,883
Dirprwy Prif Weithredwr	12,998
Corfforaethol a Craidd Democrataidd	1,579
Cyfanswm	109,782
Cyllid Corfforaethol	
Rhyddhad Trethol Dewisol	50
Ardollau	3,219
Ariannu Cyfalaf a Llog	7,783
	11,052
Arian wrth gefn dygwyd ymlaen o 2013/14	
Arian wrth gefn Gwelliannau	190
Arian wrth gefn cost newid	41
Arian wrth gefn Tâl a Graddfeydd	450
	681
Is-gyfanswm Cyllideb Ddisymud	121,515
Pwysau:	
- Newidiadau Demograffeg	250
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	490
- Diwygio Lles	77
- Amddiffyniad ysgolion	172
Arian wrth gefn Arfanu Swyddi	1.300
Arian wrth gefn Corfforaethol ar gyfer chwyddiant	2,866
	5,155
Cyfanswm Cyllideb	126,670
Cyllidwyd gan:	
Cyllideb Allanol Cyfun gan Llywodraeth Cymru	96,432
Y Dreth Cyngor	29,512
Grant Cytundeb Canlyniad	726
Cyfanswm Cyllideb	126,670

DANGOSYDDION PWYLLOG A THRYSORLYS						
Rhif Dangosydd						
Fforddiadwyaeth		2012/13 Alldro	2013/14 Amcangyfrif	2014/15 Cynnig	2015/16 Cynnig	2016/17 Cynnig
1,2	Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd referniw net:					
	Cronfa'r Cyngor	5.99%	5.45%	5.88%	6.34%	6.25%
	Cyfrif Refeniw Tai	16.19%	18.55%	17.13%	15.75%	15.06%
	Cyfanswm	6.96%	6.63%	6.95%	7.29%	7.15%
3	Amcangyfrifon o effaith ymylol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar y Dreth Gyngor <i>y Dreth Gyngor ar fand D</i>			£2.95	£12.99	£18.13
4	Amcangyfrifon o effaith ymylol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar Renti Tai <i>ar gyfartaledd rhent wythnosol</i>			£15.70	£10.82	£11.30
Pwyll						
5	Dyled gros a'r Angen Cyllido Cyfalaf (CFR)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<i>Ydy dyled allanol gros yn llai na'r CFR am y flwyddyn blaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd dilynol?</i>					
Gwariant Cyfalaf		£000	£000	£000	£000	£000
6,7	Amcangyfrif o [neu wir] Wariant Cyfalaf					
	Cronfa'r Cyngor	16,677	20,548	18,100	3,500	3,500
	Cyfrif Refeniw Tai	8,751	3,000	5,700	4,800	4,900
	Cyfanswm	25,428	23,548	23,800	8,300	8,400
8,9	Amcangyfrif o [neu wir] Angen Cyllido Cyfalaf					
	Cronfa'r Cyngor	81,347	86,299	92,400	90,800	89,300
	Cyfrif Refeniw Tai	25,061	24,044	23,000	22,000	21,000
	Cyfanswm	106,408	110,343	115,400	112,800	110,300
Dyled Allanol		£000	£000	£000	£000	£000
10	Terfyn Awdurdodedig : Benthycia	123,000	122,000	125,000	123,000	120,000
	: Ymrwymadau tymor hir eraill	2,000	2,000	2,000	2,000	2,000
	: Cyfanswm	125,000	124,000	127,000	125,000	122,000
11	Ffin Ymarferol : Benthycia	118,000	117,000	120,000	117,000	115,000

DANGOSYDDION PWYLLOG A THRYSORLYS						
Rhif Dangosydd						
	: Ymrwymiadau tymor hir eraill	2,000	2,000	2,000	2,000	2,000
	: Cyfanswm	120,000	119,000	122,000	119,000	117,000
12	Gwir Ddyled Allanol	96,097				
Rheoli'r Trysorlys		2012/13 Alldro	2013/14 Amcangyfrif	2014/15 Cynnig	2015/16 Cynnig	2016/17 Cynnig
13	Fod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Cipfa ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.	☐	☐	☐	☐	☐
		£000	£000	£000	£000	£000
14		100%	100%	100%	100%	100%
15	Y terfyn uchaf ar raddfeydd sefydlog : (prif-swm net neilltuol)	105,000	105,000	125,000	123,000	
16	Y terfyn uchaf ar raddfeydd amrywiol: (prif-swm net neilltuol)	20,000	20,000	20,000	20,000	20,000
17	Terfyn cyfanswm y prif-symiau a fuddsoddir am gyfnodau dros 364 diwrnod:	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000
			2014/15 terfyn uchaf		2014/15 terfyn isaf	
18	Terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu y benthyca graddfa sefydlog					
	• dan 12 mis		20%	0%		
	• 12 mis ac o fewn 24 mis		20%	0%		
	• 24 mis ac o fewn 5 mlynedd		50%	0%		
	• 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd		75%	0%		
	• 10 mlynedd a thr☐osodd		100%	0%		
			dim newid	dim newid		

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	27 CHWEFROR 2014
TEITL YR ADRODDIAD:	CYLLIDEB 2014-15
PWRPAS YR ADRODDIAD:	DELIO GYDA MATERION STATUDOL
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)
GWEITHREDU:	MABWYSIADU'R PENDERFYNIAD

1. RHAGARWEINIAD

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi llunio eu cynigion i'r Cyngor mewn perthynas â chyllideb 2014/15 a'r strategaeth tymor canol ac amlinellir y rheini mewn adroddiad ar wahân yn enw'r Pwyllgor Gwaith.

I bwrpas mabwysiadu ei gyllideb am 2014/15 a phennu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn, bydd raid i'r Cyngor Sir fabwysiadu penderfyniad ffurfiol sy'n delio'n fanwl gyda'r holl faterion cysylltiedig.

Yr adroddiad hwn yw fy nghyngor ffurfiol i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ynghylch y gyllideb. Mae'n delio gyda materion statudol a materion eraill y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt i gwblhau'r cyngor ar y gyllideb. Bwriedir y bydd y penderfyniad ar y gyllideb ddrafft yn gweithredu cynigion y Pwyllgor Gwaith ac yn cymryd y cyngor hwn i ystyriaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gynigion cyllidebol terfynol y Pwyllgor Gwaith ar y rhagdybiaeth y bydd y rheini yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Os bydd unrhyw newidiadau i'r cynigion hyn, efallai y bydd raid i mi ailystyried yr adroddiad hwn. Fel cymorth i mi gyflawni hyn, dywed Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb yng Nghyfansoddiad y Cyngor 4.3.2.2.11 bod rhaid cyflwyno rhybudd tri diwrnod gwaith o unrhyw newid cyn i'r Cyngor Sir fabwysiadu'r gyllideb yn ffurfiol.

2. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

Dan adran 25 (1)(a) y Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n rhaid i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar gadernid yr amcangyfrifon a baratowyd wrth lunio'r gyllideb. Mae'r asesiad hwn yn crynhoi fy adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith lle rwy'n cyfeirio at y risgiau isod a all gael effaith ar gadernid yr amcangyfrifon:-

Risg chwyddiant;
 Risg cyfraddau llog;
 Risg grantiau;
 Risg incwm;
 Risg optimistiaeth;
 Risg bod yn orofalus;
 Risg Tâl a Graddfeydd;
 Risg llithro ar gyflawni'r arbedion;
 Risgiau sylweddol penodol yn erbyn eitemau nodwyd o incwm a gwariant.

Casglais mai'r risg optimistiaeth, gweithredu'r cynllun arfarnu swyddi a llithriad gydag arbedion oedd y risgiau mwyaf.

Tynnais sylw hefyd at y risg, er bod y broses arfarnu bron â dod i ben, y bydd yn parhau i herio cadernid y gyllideb fel yn y gorffennol. I leddfu hyn, cafwyd cyfarwyddyd cyfalafu gan Lywodraeth Cymru yn 2013/14, mae'r costau hynny wedi eu cynnwys yng nghyllideb 2014/15. Erys cyllideb wrth gefn blynyddol o £450k tuag at gost y strwythur tâl newydd a darparwyd £1.3m ychwanegol fel cronfa wrth gefn yn 2014/15 i gynorthwyo i gyllido costau'r broses arfarnu swyddi.

Nodais mai'r prif risg oedd honno'n ymwneud â'r cynigion arbedion. Mae'r ffigyrau a gyflwynwyd yn seiliedig yn bennaf ar arbediad blwyddyn lawn ac yn cymryd felly y bydd y cynigion yn cael eu gweithredu'n llawn o 1 Ebrill 2014. Mae risg na fydd rhai o'r cynigion hyn yn cychwyn o'r dyddiad hwnnw. Mae hyn yn arbennig o wir am y cynigion sy'n ymwneud â diswyddiadau, cynhyrchu incwm a materion contractyddol. Oni fydd yr arbedion yn cychwyn 1 Ebrill bydd hynny'n achosi pwysau yn 2014/15.

Wrth edrych i'r tymor canol, mae risg i'r Cyngor y bydd y setliad grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn gostwng yn fwy na'r swm a ragdybir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol - gostyngiad o 4.2% yn 2014/15 a 2% bob blwyddyn wedyn dros oes y Cynllun. I ostwng y risg cymaint â phosib yn y maes hwn, bydd angen i'r Cyngor gytuno ar sut cyflawnir arbedion yn fuan yn y flwyddyn ariannol fel bod modd cael digon o amser i ymgynghori a gweithredu'r newid i gwrdd â'r targedau cyllidebol y bydd angen eu sefydlu erbyn 1 Ebrill 2015.

3. DIGONOLRWYDD Y CRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN

Dan adran 25 (1)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n rhaid i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar ddigonolrwydd yr arian wrth gefn. Yn ffurfiol mae hyn yn ymwneud ag arian wrth gefn ar gychwyn ac ar ddiwedd flwyddyn ariannol yn y gyllideb.

Sefydlwyd arian wrth gefn gwasanaeth i gefnogi gwariant gwasanaeth. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2012/13, £1.89m oedd y balans net. Fodd bynnag, roedd y balans yma'n cynnwys arian wrth gefn ar gyfer crafangu'n ôl o £2.47m, oedd yn golygu'n effeithiol fod balansau arian wrth gefn gwasanaethau unigol wedi cael eu gorddatgan. Ni all y sefyllfa yma cael ei gywiro drwy ddefnyddio'r balansau cyffredinol gan fyddai hyn yn arwain i'w lefel ddisgyn llawer is na'r isafswm a argymhellir o £5m. Felly, cyflawnir y crafangu'n ôl o'r £2.47m drwy ostwng balansau arian wrth gefn gwasanaethau unigol yn 2013/14, ar ôl caniatáu ar gyfer ymrwymadau a nodwyd.

Sefydlwyd arian wrth gefn clustnodedig i ddelio gydag ymrwymadau, cynlluniau a risgiau hysbys. Wrth asesu lefel yr arian wrth gefn, rydwyf wedi rhagdybio y bydd yr ymrwymadau yn cael eu hanrhydeddu, ac y bydd gweithredu ar y cynlluniau os ydynt yn dal i fod gennym ac rwyf wedi rhagdybio hefyd y bydd y ddarpariaeth ar gyfer risg yn rhesymol o ystyried y maint a'r tebygolrwydd. Wrth asesu'r balansau cyffredinol, rhoddwyd sylw i risgiau ac i ansicrwydd nad oes darpariaeth ar eu cyfer yn yr arian wrth gefn clustnodedig nac yn y gyllideb wrth gefn.

Mae lefel yr arian wrth gefn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae'r asesiad hwn yn dibynnu ar wybodaeth yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2013 ac a ddiweddarwyd yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 10 Chwefror a gymerodd i ystyriaeth adroddiadau monitro cyllidebol y 3ydd Chwarter o 2013/14.

Yn yr adroddiadau hyn, cyfeiriwyd at:-

- Ragamcan y byddai lefel y balansau'n £5m erbyn diwedd y flwyddyn yn unol â'r trothwy y cytunwyd arno;
- Bod cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn briodol at ei gilydd;
- Cronfeydd wrth gefn yr ysgolion yn gostwng dros amser.

Mae'r sefyllfa ariannol a ragamcanwyd ar gyfer 2013/14 yn awgrymu y bydd y balansau cyffredinol yn aros ar £5m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae £500k wedi cael ei neilltuo yn 2014/15 ar gyfer 'cost newid' a fydd yn galluogi rhai o'r prif wasanaethau i drawsnewid sut mae'r gwasanaethau yna'n cael eu darparu. Yn anochel, gyda'r lefel o ostyngiadau a ystyrir fod eu hangen, yn seiliedig ar y rhagamcanion yn y strategaeth tair blynedd, efallai bydd angen newid neu ostwng lefelau staffio. Fodd bynnag, dylai'r balansau a glustnodwyd yn 2013/14 gwrdd â'r diswyddiadau disgwylidig a chostau unwaith ac am byth a ragwelir fel rhan o'r gyllideb hon. Ar gyfer 2015-16 cynigir neilltuo £1m ychwanegol o'r arian wrth gefn i gwrdd â chostau diswyddo a chostau unwaith ac am byth eraill ar y pryd wrth i'r Cyngor barhau i ostwng costau i fantoli ei gyllideb. Mae costau diswyddiadau yn y dyfodol wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol.

Mae'n hanfodol bod system yn ei lle i fonitro cyflawni arbedion eleni a dod â rhaglen o doriadau ychwanegol ymlaen ar gyfer 2015/16 a'r blynyddoedd wedi hynny. Caiff cyflawni'r arbedion hyn eu monitro'n agos trwy adrodd yn fisol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith. Mae llithriad parhaus a'r methiant i gyflawni rhaglenni arbedion y flwyddyn flaenorol yn parhau i fod yn heriol, ac mae'n angenrheidiol i roi sylw i'r rhain, yn ogystal â sicrhau cyflawni'r cynigion diweddaraf mewn pryd, er mwyn cynnal cadernid sefyllfa ariannol y Cyngor. Bydd arbedion ar gyfer blynyddoedd diweddarach yn cael eu hystyried gan dri Bwrdd Rhaglen y Cyngor, a fydd yn cyflwyno argymhellion yn ystod 2014/15 sy'n cysylltu i mewn i Strategaeth Effeithlonrwydd y Cyngor.

4. SICRHAU'R GYLLIDEB

Unwaith y cytunir ar gyllideb 2014/15 bydd rhaglen effeithlonrwydd ychwanegol i ddatblygu effeithlonrwydd gwasanaethau ar gyfer y tair i'r pum mlynedd nesaf. Bydd hynny'n gyfle i adolygu'r rhaglen arbedion dros y tair blynedd nesaf a sicrhau fod trefniadau cadarn mewn lle i gefnogi'r rhain fel bod modd cyflawni cyllideb y flwyddyn nesaf a blynyddoedd y dyfodol ac i gefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Yr allwedd i gyflawni'r holl gyllidebau fydd dod â'r cyllidebau sydd mewn diffyg dan reolaeth, gan gynnwys cyllidebau ysgolion. Yn ogystal â chanolbwyntio ar effeithlonrwydd, mae risg amlwg o ran ffynonellau cyllido ac incwm cyffredinol. Mae angen i waith barhau i mewn i 2014/15 i gefnogi cyllid ac incwm trwy:-

- Monitro grantiau penodol yn agosach a datblygu strategaethau ymadael ar gyfer grantiau;
- Adolygu arian a ddaw i mewn o'r Dreth Gyngor a'r trefniadau disgownt;
- Monitro ffioedd a thaliadau yn agosach;
- Monitro a gwella prosesau adennill dyledion.

Fel yn 2013/14, mae rhaglen o arbedion ac effeithlonrwydd yn parhau i gynyddu ac yn dod â risgiau ychwanegol gyda hi. Mae'n amlwg y bydd angen rheoli'r rhaglenni arbedion hyn fel rhan sylfaenol o'r trefniadau ar gyfer monitro'r gyllideb gorfforaethol a bydd raid asesu'r risgiau. Bydd angen trefniadau rheoli prosiect cryf a chymorth ariannol ar gyfer y meysydd allweddol a nodwyd fel rhai sy'n risg i'r Cyngor o ran cyflawni'r rhaglen arbedion a'r gyllideb sail, a hynny er mwyn medru cyflawni'r gyllideb gyffredinol.

5. Y CÔD PWYLLOG A RHEOLI TRYSORLYS

Mae'r fframwaith deddfwriaethol a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn gorfodi'r Cyngor i ystyried y Côt Pwyllog yng nghyswllt Cyllid Cyfalaf i Awdurdodau Lleol. Mae'r Pwyllgor Gwaith eisoes wedi rhoddi cadarnhad i hyn. Gofynion pennaf y Côt Pwyllog yw bod awdurdodau yn ystyriol o fforddiadwyaeth a phwyll.

Fforddiadwyaeth

Mae cynigion cyllidebol y Pwyllgor Gwaith yn rhoddi sylw llawn i fforddiadwyaeth. Yn ddieithriad, mae'r gyllideb gyfalaf wedi ei chyllido gan gyfuniad o grantiau allanol, derbyniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw a benthyca. Mae cyswllt hanfodol rhwng yr arian a ddisgwylir o grantiau ar y naill law a'r hyn sydd wedi ei gymeradwyo neu'n debygol o fewn rheswm ar y llaw arall; bydd rhai cynigion gwario yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyfalaf ond yn amodol ar dderbyn cadarnhad i'r grantiau: oni cheir cadarnhad i'r grantiau, yna bydd y cynlluniau yn methu. Mae derbyniadau cyfalaf yn seiliedig ar werthiannau a wnaed neu sy'n cael eu gwneud neu sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundebau Canlyniadau y cytunwyd arnynt gyda LIC; diystyriwyd symiau a ddisgwylir ond sydd heb eu cadarnhau eto fel rhai pendant, ac unrhyw warged neu ddiffyg yn cael ei gario drosodd i gyllidebau blynyddoedd y dyfodol. Mae cyllid refeniw yn ei le yn gyson gyda'r gyllideb refeniw.

Benthyca Digefnogaeth

Mae'r adroddiad Rheoli Trysorlys yn ymdrin â'r defnydd o fenthyca digefnogaeth. Eleni mae'r defnydd amodol o fenthyca digefnogaeth gan Gronfa'r Cyngor i gefnogi cynlluniau gwario i arbed yn parhau, ond gohiriwyd cynlluniau mwy.

Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cynnwys cyllid o Fenter Benthyca Llywodraeth Leol am y tair blynedd o 2012/13. Mae rhagamcanion o ran benthyca wedi cynyddu oherwydd amcangyfrifir y bydd yr Awdurdod yn cael cyfran o'r £170m a neilltuwyd i Gymru (hyd at £5.25m) sydd yn awr yn rhan o Grant Cynnal Refeniw'r Cyngor.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol wedi darparu adnoddau i gyllido £2m y flwyddyn o fenthyca digefnogaeth i ariannu rhan o'i Raglen Gyfalaf. Yn y dyfodol bydd y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei datblygu i integreiddio ymhellach gyda strategaethau corfforaethol a strategaethau eraill i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau.

Strategaeth Rheoli Trysorlys

Mae'r polisïau Rheoli Trysorlys eleni wedi eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn. Argymhellaf eu mabwysiadu.

6. PENDERFYNIAD Y CYNGOR

Mae penderfyniad drafft y Cyngor yn cynnwys yr holl faterion y mae'n rhaid cael penderfyniad arnynt ac yn codi o gynigion y Pwyllgor Gwaith a'r adroddiad hwn.

Mae'r gofynion o ran cyllideb ddrafft y Cyngor yn cynnwys ardollau ffurfiol y cyrff canlynol:

	2014/15 £	Cymhariaeth Gyda 2013/14 £
Awdurdod Tân Gogledd Cymru	3,198,669	3,219,270
Bwrdd Draenio Mewnol Cors Malltraeth	1,870	1,870
Bwrdd Gwarchodwyr Tywyn Trewan	1,500	1,500

ac mae'r penderfyniad drafft yn cynnwys praeseptau Comisiynwr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r 40 o gynghorau cymuned fel eitemau ar wahân yn 6dd a 7.

7. Y SEFYLLFA GYFFREDINOL

O ystyried y Strategaeth ar gyfer y Gyllideb, y rhagamcanion economaidd a'r sefyllfa yr adroddwyd arni o ran cadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd yr arian wrth gefn, fy argymhelliad i yw na ddylai'r cynnydd yn y dreth gyngor am 2014/15 fod yn is na 4.5% ac na ddylai'r lefel darged ar gyfer y balansau cyffredinol fod yn is na £5m.

DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

DATGANIAD AR Y STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y STRATEGAETH DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2014/15

1. Rhagarweiniad

1.1 Cefndir

Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys sy'n golygu bod rhaid i gyfanswm y refeniw sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn ariannol fod yn ddigonol i gwrdd â gwariant a hefyd, rhaid i'r arian gwirioneddol a ddaw i mewn bod yn ddigonol i gydbwysu'r arian a fydd yn mynd allan. Rhan allweddol o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan mae ei angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartion neu offerynnau risg isel sy'n cyd-fynd â dull risg isel y Cyngor gan sicrhau hylifedd digonol cyn ystyried y dychweliad ar fuddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu canllawiau ar gyfer anghenion benthycu'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian am dymor hwy. O bryd i'w gilydd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd â risgiau neu amcanion cost y Cyngor.

Yn benodol, rhaid i awdurdod lleol glandro ei ofynion cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol i gynnwys y costau refeniw sy'n llifo o benderfyniadau ynghylch cyllido cyfalaf. Mae hyn yn golygu bod rhaid cyfyngu:-

- cynnydd mewn costau refeniw yn sgil ffioedd llog uwch, oherwydd benthycu ychwanegol i gyllido gwariant cyfalaf, ac
- unrhyw gynnydd mewn costau rhedeg prosiectau cyfalaf newydd, i lefel sy'n fforddiadwy o ran incwm rhagamcanedig y Cyngor.

Mae Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio'r polisiâu ag amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys. Gweler Atodiad 9.

1.2 Gofynion o ran cyflwyno adroddiadau

Rhaid i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn sy'n ymgorffori amrediad o bolisiau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Rhaid i'r adroddiadau hyn gael eu sgrwtinieddio'n ddigonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth hon.

Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys a'r Strategaeth Trysorlys - Mae'r adroddiad cyntaf a'r un pwysicaf yn cynnwys:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sut bydd y buddsoddiadau a'r benthyciadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (canllawiau ynghylch sut y dylid rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (sut mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei drosglwyddo i refeniw dros gyfnod o amser); a
- Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o'r polisiâu ag amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys).

Yn ogystal, mae angen adrodd ar y cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion pwyllog a thrysorlys cysylltiedig).

Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn - Bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynghylch cynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, gan ddiwygio'r dangosyddion pwylllog yn ôl yr angen gan nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i amcanion ynteu a oes angen adolygu unrhyw bolisiâu. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n chwarterol, sef yn amlach na'r gofyniad isaf (gyda chwarteri un a tri ond yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio).

Adroddiad Trysorlys Blyneddol – Yn hwn, ceir manylion ynghylch detholiad o ddangosyddion pwylllog a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau trysorlys gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

1.3 Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2014/15

Mae'r strategaeth a awgrymir ar gyfer 2014/15 mewn perthynas â'r agweddau canlynol o'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn seiliedig ar sylwadau'r swyddogion trysorlys ar gyfraddau llog ac ategir at y rhain gan ragolygon o'r farchnad a ddarperir gan ymgynghorydd trysorlys y Cyngor, Capita Asset Services.

Mae'r strategaeth ar gyfer 2014/15 yn ymwneud â dau brif faes:-

Materion Cyfalaf

- y cynlluniau cyfalaf a'r dangosyddion pwylllog; ac
- y strategaeth DRI.

Materion rheoli trysorlys

- y sefyllfa gyfredol o ran y trysorlys;
- dangosyddion trysorlys a fydd yn cyfyngu ar risg a gweithgareddau trysorlys y Cyngor;
- y rhagolygon o ran cyfraddau llog;
- y strategaeth fenthyca;
- polisi ar fenthyca o flaen yr angen;
- ail-raglennu dyledion;
- y strategaeth fuddsoddi;
- polisi teilyngdod credyd; a
- polisi ar ddefnyddio darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'r elfennau hyn yn cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Côd Pwylllog CIPFA, Canllawiau DRI LIC, Côt Rheoli Trysorlys CIPFA a Chanllawiau Buddsoddi LIC.

1.4 Hyfforddiant

Dan Côt CIPFA mae'n ofynnol fod y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod Aelodau â chyfrifoldeb am reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol yn rheoli trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgrwtini. Er mwyn cefnogi aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn eu swyddogaeth sgrwtini, ac yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2013, cafodd aelodau'r pwyllgor hyfforddiant ar faterion rheoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys penodedig.

O bryd i'w gilydd, fe adolygir anghenion hyfforddi swyddogion rheoli trysorlys.

1.5 Ymgynghorwyr rheoli trysorlys

Mae'r Cyngor yn defnyddio Capita Asset Services, Treasury solutions (Sector gynt) fel ymgynghorwyr allanol ar faterion rheoli trysorlys.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn fater i'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau nad yw'n dibynnu gormod ar ein darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'n cydnabod hefyd bod gwerth mewn cyflogi darparwyr allanol ar gyfer gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn cael mynediad i adnoddau a sgiliau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r ffyrdd ar gyfer asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd hefyd.

1.6 Mabwysiadu'r Côt

Rhaid i'r Cyngor nodi a yw wedi mabwysiadu Côt Ymddygiad CIPFA ar Reoli Trysorlys. Mabwysiadwyd Côt gwreiddiol 2001 ar 5 Mawrth 2002 gan y Cyngor Sir, mabwysiadwyd y Côt diwygiedig ar 4 Mawrth 2010 a nawr mae angen mabwysiadu'r Côt cyfredol 2011 ar gyfer 2014/15.

2. Ystyriaethau Cyfalaf

Mae rhagolygon gwariant cyfalaf cyfredol y Cyngor ar gyfer 2014/15 wedi'u nodi isod. O ran y blynyddoedd ar ôl 2014/15, Mae'r symiau a ddangosir wedi eu cyfyngu i ymrwymïadau cyfredol sy'n gysylltiedig â chynlluniau sy'n parhau, gwariant sydd wedi ei gynllunio o'r CRT (ar sail y cynllun 30 blynedd gyfredol) a hefyd y rhagdybiaeth y bydd y dyraniad cyllid cyfalaf cyffredinol blynyddol yn parhau ar lefel 2014/15 ac yn cael ei ddefnyddio'n llawn. O gofio'r gwaith trawsnewid corfforaethol a'r gwaith i ddatblygu prosesau cynllunio cyfalaf nid oes unrhyw amcangyfrif o wariant ychwanegol posib i'r dyfodol wedi eu cynnwys yn y rhagolygon ar hyn o bryd. Wrth i'r broses cynllunio cyfalaf ddatblygu a chysylltu i mewn i'r gwaith trawsnewid corfforaethol yn ystod 2014/15, bydd eglurder yn datblygu o ran gwariant cyfalaf i'r dyfodol fel bod modd cynhyrchu amcangyfrifon dibynadwy ar gyfer gwariant yn ogystal â'r cynlluniau cyfredol. Efallai y bydd angen diweddarau'r dangosyddion pwyllog hyn o ganlyniad wrth i amser fynd heibio.

Bydd y rhaglenni'n gyffredinol yn cael eu cyfyngu i'r hyn sy'n fforddiadwy, o ran y gwariant cyfalaf gwirioneddol ac o ran y goblygiadau referniw (gweler 1.1 uchod). Gweler y dangosyddion pwyllog yn Atodiad 11.

£m	2012/13 Gwirioneddol £m	2013/14 Rhagamcanedig £m	2014/15 Amcangyfrif £m	2015/16 Amcangyfrif £m	2016/17 Amcangyfrif £m
CYFANSWM	25.4	23.5	23.8	8.3	8.4

3. Benthycu

Bydd y cynlluniau gwariant cyfalaf sydd yn cael eu gosod allan yn ddogfen ar wahân i'r Pwyllgor Gwaith yn darparu manylion gweithgaredd gwasanaeth y Cyngor. Mae'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn sicrhau bod arian parod y Cyngor wedi ei drefnu yn unol â'r codau proffesiynol perthnasol, i sicrhau fod arian parod digonol ar gael i gwrdd â'r gweithgaredd gwasanaeth yma. Bydd hyn yn cynnwys trefnu'r llif arian parod a, lle mae'r cynlluniau cyfalaf ei angen, trefnu'r cyfleusterau benthycu priodol. Mae'r strategaeth yn rhoi sylw i'r dangosyddion trysorlys / pwyllog perthnasol, y sefyllfa dyled gyfredol ac a ragwelir, a'r strategaeth buddsoddi flynyddol.

3.1 Sefyllfa Portffolio ar hyn o bryd

Roedd sefyllfa'r Cyngor o ran y portffolio trysorlys ar 17 Ionawr 2014 fel a ganlyn:-

		Prifswm (£m)	Cyfraddau Cyfartalog (%)
Cyllid Cyfradd Sefydlog	BBGC	89.6	5.72
Cyllid Cyfradd Amrywiol	d/b	0.0	n/a
Cyfanswm y Dyledion		89.6	5.72

BBGC: Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus

Ceir eglurhad manylach ynghylch dyledion allanol yn Atodiad 1.

3.2 Gofynion ar gyfer Benthycia yn Awr ac i'r Dyfodol a Benthyciadau Gwirioneddol

Mae'r symudiadau a ragwelir o ran gofynion cyllid cyfalaf y Cyngor fel a ganlyn:-

AMCANGYFRIF O'R SYMUDIADAU YN Y GOFYNION CYLLIDO CYFALAF A BENTHYCA NEWYDD 2013/14 I 2016/17				
	2013/14 Rhagamcanedig £'000	2014/15 Amcangyfrif £'000	2015/16 Amcangyfrif £'000	2016/17 Amcangyfrif £'000
Symudiad yn y Gofyn am Gyllid Cyfalaf				
Benthycia newydd i gefnogi gwariant cyfalaf				
<i>Benthycia gyda Chefnogaeth</i>	1,344	5,890	2,194	2,194
<i>Benthycia Di-gefnogaeth</i>	7,010	4,368	-	-
Cyfanswm	8,354	10,258	2,194	2,194
<i>Gostwng gan: Darpariaeth Refeniw Isaf a derbyniadau cyfalaf a roddwyd o'r neilltu</i>	(4,419)	(5,192)	(4,771)	(4,730)
Symudiad Net yn gofyn am gyllid Cyfalaf	3,935	5,066	(2,577)	(2,536)
Symudiadau posib yn y benthyciadau gwirioneddol				
Symudiadau yn y gofyn am gyllid cyfalaf (uchod)	3,935	5,066	(2,577)	(2,536)
Allanoli benthycia mewnol cyn 2013/14	10,308	-	-	-
Benthycia newydd	6,507	7	8	9
Benthycia newydd posib - Cyfanswm	20,750	5,073	(2,569)	(2,527)

Mae'r tabl uchod yn ymgynghori effaith lawn y Rhaglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2014/15 a rhaglen gyfalaf 2013/14. Am y blynyddoedd ariannol dilynol mae symiau yr amcangyfrifwyd y bydd eu hangen ar gyfer benthycia newydd wedi eu cyfyngu i ddyraniadau benthycia gyda chefnogaeth y rhagdybiwyd y byddant yn parhau ar lefel 2014/15 ac yn cael eu defnyddio'n llawn ym mlwyddyn eu dyrannu. Bydd datblygu cynllun cyfalaf (fel y cyfeirir ato yn rhan 2) yn golygu y gellir cael rhagolygon cadarnach ar gyfer gwariant yn ogystal â'r rhagolygon cyfredol a bydd hynny'n golygu y gellid cael amcangyfrifon mwy cynhwysfawr o wariant cyfalaf i'r dyfodol a'r gofynion am gyllid cyfalaf yn sgil hynny.

Mae'n debygol na fydd benthycia allanol yn cwrdd â'r cyfan o'r gofyn hwn (gweler 3.4.1 isod).

Mae yna nifer o ddangosyddion trysorlys i sicrhau bod y Cyngor yn rhedeg ei weithgareddau o fewn cyfyngiadau pendant. Un o'r rheini yw bod angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddebyd gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn mynd y tu hwnt i'r gofyn am gyllid cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon am unrhyw CFR ychwanegol ar gyfer 2014/15 a'r ddwy flwyddyn ddilynol. Mae hyn yn caniatáu peth hyblygrwydd ar gyfer faint o fenthycia cynnar ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, ond mae'n sicrhau nad yw arian yn cael ei fenthycia ar gyfer dibenion refeniw. Gellir gweld y dangosyddion trysorlys yn Atodiad 11.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn dweud bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosyddion darbodus a thrysorlys yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld unrhyw anawsterau i'r dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymadau cyfredol, y cynlluniau sydd gennym a'r cynigion yn yr adroddiad ar y gyllideb.

3.3 Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor wedi penodi Capita fel ei ymgynghorydd trysorlys a rhan o'r gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i lunio barn ar gyfraddau llog. Yn Atodiad 3, dygir ynghyd nifer o ragolygon cyfredol y ddinas ar gyfer cyfraddau llog tymor byr (Cyfradd y Banciau) a chyfraddau sefydlog tymor hwy. Yn y tabl isod, ceir barn Capita.

Cyfartaledd Blyneddol (%)	Cyfraddau Banc (%)	Cyfraddau Benthycia BBGC (yn cynnwys addasiad graddfa sicrwydd)		
		5 mlynedd	25 blwyddyn	50 blwyddyn
Mawrth 2014	0.50	2.50	4.40	4.40
Mehefin 2014	0.50	2.60	4.50	4.50
Medi 2014	0.50	2.70	4.50	4.50
Rhagfyr 2014	0.50	2.70	4.60	4.60
Mawrth 2015	0.50	2.80	4.60	4.70
Mehefin 2015	0.50	2.80	4.70	4.80
Medi 2015	0.50	2.90	4.80	4.90
Rhagfyr 2015	0.50	3.00	4.90	5.00
Mawrth 2016	0.50	3.10	5.00	5.10
Mehefin 2016	0.75	3.20	5.10	5.20
Medi 2016	1.00	3.30	5.10	5.20
Rhagfyr 2016	1.00	3.40	5.10	5.20
Mawrth 2017	1.25	3.40	5.10	5.20

Tan 2013, gellir dweud mai'r adferiad economaidd yn y Deyrnas Gyfunol ers 2008 yw'r arafaf a'r waethaf mewn hanes diweddar. Fodd bynnag, mae twf wedi bod yn llawer gwell na'r disgwyl yn 2013 yn sgil yr adferiad o ran gwariant gan ddefnyddwyr a'r farchnad dai. Mae'r arolygon hefyd yn gadarnhaol iawn i'r dyfodol gan nodi bod posibilrwydd cryf o dwf yn 2014, nid yn unig yn economi'r Deyrnas Gyfunol yn ei chyfanrwydd, ond ym mhob un o'r tri sector, sef gwasanaethau, gwaith cynhyrchu ac adeiladu. Mae hyn yn galonogol iawn oherwydd bod angen ail-gydbwyso sylweddol yn yr economi i ffwrdd o wariant gan ddefnyddwyr a thuag at y meysydd adeiladu, gwaith cynhyrchu, buddsoddiad busnes ac allforio er mwyn i'r economi fedru dechrau gwella a sefydlu ei hun yn gadarnach. Un rhwystr sy'n llesteirio'r economi yw bod chwyddiant cyflogau yn parhau i fod yn llawer is na chyfradd chwyddiant a mynegai prisiau defnyddwyr felly mae'r safonau byw ac incwm dan bwysau, er bod toriadau treth incwm wedi gwella'r sefyllfa rhyw ychydig. Mae hyn yn golygu felly bod rhaid i gynhyrchiant wella'n sylweddol er mwyn cywiro'r sefyllfa hon trwy warantu cynnydd mewn cyfraddau tal. Mae'r Unol Daleithiau, sef prif economi'r byd, yn wynebu problemau dyled debyg i'r Deyrnas Gyfunol, ond oherwydd twf rhesymol, toriadau mewn gwariant gan y Llywodraeth a chynnydd mewn trethi, mae diffyg blyneddol y llywodraeth wedi haneru heb ymddangos iddo wneud gormod o ddifrod i dwf.

Mae gan y rhagolygon economaidd cyfredol a strwythur cyfraddau llog marchnad amryw o oblygiadau rheoli trysorlys allweddol:

- O ran Parth yr Ewro, mae pryderon wedi gostwng yn sylweddol yn 2013. Fodd bynnag, nid yw anawsterau gyda dyled sofran wedi diflannu a gallai pryderon mawr ddychwelyd mewn perthynas ag unrhyw wledydd nad ydynt yn rhoi sylw egniol i faterion twf isel, diffyg i gystadlu yn rhyngwladol a'r angen i ddiwygio'r economi (fel sydd wedi digwydd yn Iwerddon). Mae'n bosib felly dros yr ychydig flynyddoedd nesaf y gallai lefelau dyled llywodraeth i gymarebau GDP barhau i godi i lefelau a allai arwain at fuddsoddwyr yn colli hyder yng nghadernid ariannol gwledydd o'r fath. Gallai hyn olygu nad yw pryderon dyled sofran wedi diflannu ond, yn hytrach, eu bod wedi eu gohirio. Mae risgiau gwrthbartion felly yn parhau i fod yn uchel. Mae hyn yn parhau i awgrymu defnyddio gwrthbartion o safon uwch am gyfnodau llai;
- Mae dychweliadau o fuddsoddiadau yn debygol o barhau'n weddol isel yn ystod 2014/15 a'r tu draw i hynny;

- Mae cyfraddau llog ar fenthyciadau wedi codi'n sylweddol yn ystod 2013 ac yn parhau i wneud. Mae'r polisi o osgoi benthycia newydd trwy ddefnyddio arian parod sbâr wedi gweithio'n dda dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen adolygu hyn yn ofalus i osgoi costau benthycia fydd hyd yn oed yn uwch, ac sydd yn awr yn dod yn fwyfwy agos, lle na fydd awdurdodau yn gallu osgoi benthycia o'r newydd i gyllido gwariant cyfalaf newydd ac/neu i ail-gyllido dyledion sy'n aeddfedu yn y dyfodol agos;
- bydd cost yn aros o gario i unrhyw fenthycia newydd sy'n golygu cynnydd mewn buddsoddiadau gan y bydd hynny'n golygu colled refeniw rhwng costau benthycia a dychweliadau buddsoddi.

3.4 Y Strategaeth Fenthycia

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthycia. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf), heb ei ariannu'n llawn ac mae dyledion benthycia wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae'r driniaeth hon yn un bwyllog oherwydd bod dychweliadau ar fuddsoddiadau yn isel a risg o ran wrth bartïon yn uchel a bwriedir glynu wrthi lle'n briodol (gweler 3.4.1 isod am ystyriaeth fwy manwl o fenthycia mewnol ac allanol).

Yn erbyn y cefndir hwn ar risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull pwylllog o ran gweithgareddau trysorlys 2014/15. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig at amgylchiadau sy'n newid:-

- Os roedd teimlad bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir, e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant, yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthycia tymor byr.
- Os roedd teimlad bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer mwy yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr na'r rhagolygon cyfredol, efallai oherwydd cynnydd mwy na'r disgwyl mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn parhau i fod yn is nac y byddent yn yr ychydig o flynyddoedd nesaf.

Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r corff gwneud penderfyniadau priodol pan ddaw'r cyfle nesaf.

Yn wyneb yr uchod, bydd strategaeth fenthycia'r Cyngor yn seiliedig ar y ffynonellau isod yn darparu gwerth:-

- Benthycia dros dro gan y marchnadoedd arian neu awdurdodau lleol eraill;
- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) am hyd at 10 mlynedd;
- Benthycia am gyfnodau byr o ffynonellau y tu allan i'r BBGC;
- Bydd triniaeth hyblyg i'r cymysgedd o fenthycia mewnol ac allanol (gweler 3.4.1 isod);
- Benthyciadau marchnad cyfradd sefydlog tymor hir, lle mae'r cyfraddau yn llawer is na chyfraddau'r BBGC ar gyfer y cyfnod aeddfedu cyfatebol, a chynnal balans priodol rhwng dyled BBGC a dyled marchnad yn y portffolio dyledion;
- Benthycia gan y BBGC am gyfnodau sy'n llai na 10 mlynedd lle disgwylir i gyfraddau fod yn sylweddol is na'r cyfraddau ar gyfer cyfnodau hwy. Mae hyn yn cynnig amrediad o opsiynau ar gyfer benthycia newydd a fydd yn symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar ddyledion tymhorau hwy.

3.4.1 Benthycia mewnol yn erbyn benthycia allanol

Mae'r gymhariaeth rhwng sefyllfaoedd dyled gros a net ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn (mae hyn ar sail cael ei gyllido'n llawn):-

BENTHYCA NET 2012/13 HYD AT 2016/17					
	2012/13 Gwirioneddol £m	2013/14 Rhagamcanedig £m	2014/15 Amcangyfrif £m	2015/16 Amcangyfrif £m	2016/17 Amcangyfrif £m
Cyfanswm benthycia	96,097	110,343	115,410	112,833	110,297
Cyfanswm buddsoddi	13,468	20,000	20,000	20,000	20,000
Benthycia Net	82,629	90,343	95,410	92,833	90,297

Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthycia mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisi blaenorol i allanoli'r holl fenthycia yn parhau i fod yn ddilys, e.e.:-

- I warchod y rheini sy'n talu'r dreth gyngor rhag colledion a achoswyd gan y dull o gyfrifo'r Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai yn y system gyfredol;
- Lleddfu unrhyw faterion hylifedd a achoswyd gan weithredu darpariaethau penodol yn y dyfodol i gyfyngu benthycia digefnogaeth;
- Gan fod y Gyfradd Banc yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.

Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, e.e.:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn methu ar y ddyled), felly bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthycia a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch buddsoddiadau.

O blaid mewnnoli, dros y tair blynedd nesaf disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn is na'r cyfraddau benthycia tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthycia allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthycia mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

Fodd bynnag, rhaid pwysu a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthycia allanol tymor hir yn 2014/15 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn sylweddol uwch.

Bydd newidiadau posib i Gymhorthdal Tai hefyd yn cael dylanwad ar y balans rhwng allanoli/mewnnoli, ond disgwylir am ragor o wybodaeth ar y mater hwn gan LIC.

Mae'r Cyngor wedi edrych ar y posibilrwydd o ad-dalu rhai dyledion allanol i'r BBGC yn gynnar er mwyn gostwng y gwahaniaeth rhwng ei sefyllfaoedd debyd gros a net. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y BBGC wedi cyflwyno cyfraddau ad-dalu sy'n llawer is na'r cyfraddau benthycia newydd ym mis Tachwedd 2007, ynghyd â'r ffaith bod y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthycia newydd ac ad-dalu yn Hydref 2010 yn parhau i ledu, yn golygu o bosib y byddai gweithredu yn y fath modd yn golygu premiymau mawr (h.y. bod y gost o adael yn gynnar yn uwch na'r hyn a gyflawnwyd yr arbedion); mae'n annhebygol y gellid cyfiawnhau lefelau premiwm mor fawr ar sail gwerth am arian. Caiff y sefyllfa hon ei monitro rhag ofn y bod y BBGC yn lleihau'r gwahaniaethau hyn rhyw dro yn y dyfodol.

Yn erbyn y cefndir hwn, byddir yn wylidwrus gyda gweithgareddau trysorlys 2013/14. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro'r farchnad cyfraddau llog ac yn cymryd agwedd ymarferol tuag at amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi gwybod am unrhyw benderfyniadau i'r corff gwneud penderfyniadau priodol pan ddaw'r cyfle nesaf ar gael.

3.5 Y polisi ynghylch benthycia ymlaen llaw i gwrdd ag anghenion

Ni fydd y Cyngor yn benthycia mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthycia ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon gofynion cyllido cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.

Wrth benderfynu a fydd y Cyngor yn benthycia cyn bod angen gwneud hynny bydd y Cyngor yn:-

- sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrydd y portffolio dyled gyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthycia cyn i'r angen godi;
- sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol wedi eu hystyried;
- pwysu a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthycia;
- ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
- ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio;
- ystyried effaith benthycia ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrth barti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

Bydd y risgiau'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd benthycia o flaen y galw yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

3.6 Ad-drefnu Dyled

Yn sgil BBGC yn cyflwyno gwahaniaeth yn 2007 rhwng y cyfraddau ar gyfer benthycia newydd a'r cyfraddau ar gyfer ad-dalu dyledion, ynghyd â'r ffaith bod y gwahaniaeth wedi tyfu rhwng cyfraddau benthycia newydd ac ad-dalu ar 20 Hydref 2010, mae ailstrwythuro dyledion trwy fenthycia gan BBGC yn llawer llai deniadol nag yr oedd cyn y digwyddiadau hyn. Yn arbennig, byddai'n rhaid rhoi sylw i'r premiymau mawr a fyddai'n digwydd yn sgil ad-dalu benthyciadau gan BBGC yn gynnar, ac mae'n annhebygol iawn y gellid cyfiawnhau'r rhain ar sail gwerth am arian os byddid yn defnyddio cyllid gan BBGC yn eu lle. Fodd bynnag, efallai y byddai modd gwneud rhai arbedion llog trwy ddefnyddio benthyciadau marchnad ac eraill, mewn ymarferion ad-drefnu yn hytrach na defnyddio benthyciadau BBGC fel ffynhonnell gyllido.

Gan y bydd cyfraddau benthycia tymor byr yn sylweddol rhatach na chyfraddau llog tymor sefydlog hwy, efallai y bydd cyfleoedd i wneud arbedion trwy symud o ddyledion tymor hir i ddyled tymor byr. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yr arbedion hyn yn wyneb sefyllfa gyfredol y trysorlys a maint a chost ad-dalu dyledion (h.y. y premiymau a godir).

Bydd y rhesymau dros ad-drefnu yn cynnwys:-

- Cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- Cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys;
- Gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalarwydd ariannol).

Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes posibilrwydd ar ôl i wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi gostwng trwy ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf ar ôl cymryd y camau.

4. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

4.1 Sefyllfa Gyfredol y Portffolio

Roedd sefyllfa portffolio trysorlys y Cyngor ar 17 Ionawr 2014 yn cynnwys:-

	Prifswm (£m)	Graddfa Cyfartalog (%)
Adneuon – ar alw i 30 diwrnod	18.0	0.45
Adneuon – tymor sefydlog < 1 blwyddyn	5.0	0.60
Adneuon – tymor sefydlog 1 blwyddyn +	-	-
Cyfanswm adneuon	23.0	0.48

4.2 Polisi Buddsoddi

Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau") a Chôd Ymarfer Diwygiedig CIPFA 2011 ar gyfer Awdurdodau Lleol ynghylch Rheolaeth Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Nodiadau Canllawiau i'r Sectorau eraill. Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac wedyn elw.

Yn unol â'r uchod, ac er mwyn gostwng risgiau i fuddsoddiadau i'r eithaf, mae'r Cyngor wedi nodi'n glir yr ansawdd credyd isaf sy'n dderbyniol yn achos gwrthbartion i'w cynnwys ar y rhestr fenthycyca (gweler Atodiad 6). Mae'r fethodoleg o ran teilyngdod credyd a ddefnyddir i greu'r rhestr gwrthbartion yn cymryd ystyriaeth lawn o raddfeydd a rhagolygon a gyhoeddwyd gan y tair asiantaeth graddio ynghyd â dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r rhain yn ei adlewyrchu ym marn pob asiantaeth. Gan ddefnyddio gwasanaeth cyfraddau Capita Asset Services, mae graddfeydd y banciau yn cael eu monitro ar sail amser gwirioneddol gyda manylion am unrhyw newidiadau yn cael eu cyfleu'n electronig wrth i'r asiantaethau roi gwybod am newidiadau.

Ymhellach, mae swyddogion y Cyngor yn cydnabod nad y graddfeydd hyn ddylai fod yr unig beth sy'n penderfynu ar ansawdd sefydliad a'i fod yn bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau yn gweithredu y tu mewn iddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sydd yn adlewyrchu barn y marchnadoedd. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i fonitro prisiau marchnad fel "Trosglwyddo Risgiau Credyd" ac yn troshaenu'r wybodaeth honno am ben y graddfeydd credyd. Mae hyn wedi ei integreiddio'n llawn i'r fethodoleg credyd a ddarparwyd gan ymgynghorwyr y Cyngor, Capita Asset Services, wrth gynhyrchu ei godau lliw sy'n dangos gwahanol lefelau teilyngdod credyd.

Bydd ffynonellau gwybodaeth eraill a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfraddau a gwybodaeth arall mewn perthynas â'r sector bancio er mwyn sefydlu proses sgrïwtini gadarn ynghylch addasrwydd gwrthbartion buddsoddi positif.

Nod y strategaeth yw cynhyrchu rhestr o wrthbartion gyda theilyngdod credyd cryf a fydd hefyd yn sicrhau y bydd modd arallgyfeirio ac osgoi canoli risg mewn un lle.

Bwriad y strategaeth yw sicrhau diogelwch buddsoddiadau a gostwng risgiau i'r eithaf.

Mae offerynnau buddsoddi a nodwyd i'w defnyddio yn y flwyddyn ariannol wedi eu rhestru yn Atodiad 5 dan y categorïau Buddsoddiadau 'Penodedig' a 'Amhenodedig'.

O bryd i'w gilydd, bydd y Cyngor hefyd yn gwneud benthyciadau, adneuron a buddsoddiadau i bwrpas darparu ei wasanaethau. Bydd y trafodion yma angen awdurdod y Cyngor Sir ar gyfer symiau dros £100k. Bydd yr holl drafodion yn amodol ar ansawdd credyd digonol a chymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio Cyllid.

4.3 Polisi Teilyngdod Credyd

Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartion yn unol â'r meini prawf a osodir allan yn Atodiad 6 ac adolygir y meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo pan fo'r angen.

Mae'r meini prawf isafswm graddfa yn defnyddio'r dull cyfenwadur lleiaf o ddewis gwrthbartion a'r terfynau gweithredol. Golyga hyn fod defnyddio isafswm meini prawf y Cyngor yn berthnasol i'r raddfa isaf sydd ar gael ar gyfer unrhyw sefydliad (gan ddefnyddio asiantaethau graddio credyd Fitch, Moody's a Standard & Poor's). Er enghraifft, petai sefydliad yn cael ei raddio gan ddwy asiantaeth, mae un ohonynt yn cwrdd â meini prawf y Cyngor ond nid yw'r llall, ar sail graddfa credyd, fydd y sefydliad yn disgyn tu allan i'r meini prawf benthycia. Darparir gwybodaeth meini prawf credyd gan Capita Asset Services, ar yr holl wrthbartion gweithredol sy'n cydymffurfio â'r meini prawf isod. Gellir gadael allan o'r rhestr gwrthbartion unrhyw wrthbarti sy'n methu cwrdd â'r meini prawf. Rhoddir gwybod i swyddogion bron ar unwaith ar ôl unrhyw newidiadau, megis newidiadau graddio, gwylio graddio (hysbysiad o newid tebygol), rhagolygon graddio (hysbysiad o newid tymor hwy posib), ac ystyrir y wybodaeth cyn gweithredu.

Fel haen ychwanegol i'r meini prawf isafswm graddfa credyd a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Capita Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio dull modelu soffistigedig gan ddefnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth graddfeydd credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu graddfeydd credyd gwrth bartion:

- Ystyrir rhagolygon credyd a gweithgareddau monitro credyd gan asiantaethau graddfeydd credyd;
- Trosglwyddo Risgiau Credyd i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
- Graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartion o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng i gredyd yn unig.

Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd a rhagolygon credyd mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o TRC a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o gredyd yw gwrthbartion. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor i gynorthwyo i benderfynu cyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartion o fewn y cyfnodau canlynol:

- Melyn 5 mlynedd *
- Pinc tywyll 5 mlynedd
- Pinc golau 5 mlynedd – ar gyfer cronfeydd marchnad arian uwch (EMMFs) gyda sgôr credyd o 1.5
- Piws 2 flynedd
- Glas 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a led wladolwyd)
- Oren 1 flwyddyn
- Coch 6 mis
- Gwyrdd 100 diwrnod
- Dim Lliw Dim i'w ddefnyddio

Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Capita Asset Services yn defnyddio amrediad ehangach o wybodaeth na dim ond graddau sylfaenol a thrwy ddefnyddio'r system sgorio yn ôl risg, nid yw'n rhoi sylw gormodol i raddfeydd un asiantaeth yn unig.

Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth trwy ei ddefnydd o wasanaeth teilyngdod credyd Capita.

- os bydd graddio i lawr yn golygu na fydd cynllun y gwrthbarti/cynllun buddsoddi pellach yn cyfarfod â meini prawf sylfaenol graddfa credyd y Cyngor, bydd ei ddefnyddio ymhellach ar gyfer buddsoddi newydd yn dod i ben ar unwaith, heblaw ei fod wedi ei gymeradwyo; a
- yn ychwanegol at ddefnyddio graddfeydd credyd, bydd y Cyngor yn derbyn gwybodaeth am symudiadau mewn TRC yn erbyn y meincnod iTraxx a data arall am y farchnad yn wythnosol. Fe all symudiadau eithafol yn y farchnad olygu israddio sefydliad neu ei ddileu oddi ar restr fenthycar Cyngor.

Cyfeirir hefyd at ddata a gwybodaeth y farchnad, gwybodaeth am gefnogaeth y llywodraeth i fanciau a graddfeydd credyd y gefnogaeth honno.

4.4 Cyfyngiadau Gwlad

Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd ond yn defnyddio gwrthbartion cymeradwy o wledydd gyda graddfa credyd sofran o AA- yn ôl Graddfeydd Fitch (neu asiantaethau cyfatebol eraill os na fydd Fitch yn ei ddarparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad yn Atodiad 6. Bydd swyddogion yn ychwanegu neu'n tynnu oddi ar y rhestr pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn.

4.5 Strategaeth Fuddsoddi

Graddfeydd mewnol: Yn seiliedig ar ragamcan o'r llyf ariannol, mae'r Swyddog Adran 151 rhagweld y bydd y balansau ariannol fydd ar gael yn 2014/15 hyd at £30m ar gyfartaledd ac y byddant rhywle rhwng £15m a £35m. Disgwylir bydd yna falans craidd o hyd at £15m ar gael ar gyfer buddsoddi dros y tymor canolog i hir. Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llyf ariannol a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd buddsoddi hyd at 12 mis).

Ar ddyddiad yr adroddiad yma, nid oedd y Cyngor yn dal unrhyw fuddsoddiadau gyda chyfnod aeddfedrwydd o fwy na blwyddyn.

Disgwyliadau o ddychweliadau ar fuddsoddiadau: Mae Graddfa Llog y Banciau wedi parhau ar 0.50% ers Mawrth 2009. Rhagwelir y bydd Llog y Banciau'n dechrau codi yn chwarter 2, 2016. Mae'r rhagolygon am raddfa'r Banc am y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ym Mawrth fel a ganlyn:-

- **2013/2014** 0.50%
- **2014/2015** 0.50%
- **2015/2016** 0.50%
- **2016/2017** 1.25%

Mae risgiau cadarnhaol i'r rhagolygon hyn (h.y. cynnydd yn y Cyfradd Banc yn digwydd yn gynt) os yw twf economaidd yn parhau i fod yn gryf a diweithdra yn disgyn yn gyflymach na'r disgwyl. Fodd bynnag, os bydd cyflymder y twf yn arafu, efallai y bydd risg negyddol, yn arbennig felly os bydd rhagolygon Banc Lloegr ar gyfer cwmp mewn diweithdra yn rhy optimistig.

Bydd y Cyngor yn osgoi cloi arian i fyny mewn cytundebau tymor hirach tra bo graddfeydd buddsoddi i lawr i lefelau hanesyddol isel iawn oni bai bod graddfeydd deniadol eithriadol ar gael sy'n gwneud buddsoddi tymor hirach yn werth chweil.

Mae'r cyfraddau enillion a gyllidebwyd ar fuddsoddiadau am gyfnodau o hyd at gant o ddyddiau yn ystod pob blwyddyn ariannol am y pedair blynedd nesaf fel a ganlyn:-:

2012/13	0.50%
2013/14	0.50%
2014/15	1.00%
2015/16	2.00%

Ar gyfer ei falansau sy'n cael eu cynhyrchu gan lif arian, bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio ei gyfrifon busnes mynediad ar unwaith ac wrth gefn, ac adneuon cyfnod byr (tros nos i 100 diwrnod) er mwyn elwa o log cyfansawdd.

4.6 Adroddiad buddsoddi diwedd blwyddyn

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y Cyngor yn adrodd yn ôl ar ei weithgareddau buddsoddi fel rhan o'i Adroddiad Trysorlys Blyneddol.

4.7 Rheolwyr Cronfeydd Allanol

Nid yw'r Cyngor wedi penodi rheolwyr cronfeydd allanol. Byddir yn cadw'r angen i wneud hyn dan sylw a bydd adroddiad yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor Gwaith cyn y gwneir unrhyw benodiad o'r fath.

4.8 Polisi ar ddefnyddio darparwyr gwasanaeth allanol

Er mwyn gallu prynu sgiliau ac adnoddau arbenigol, mae'r Cyngor yn defnyddio Capita Asset Services fel ei ymgynghorwyr allanol ar reoli'r trysorlys. Mae telerau eu penodiad a'r dulliau a ddefnyddir i asesu eu gwerth wedi'u cytuno a'u cofnodi'n gywir ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r cyfrifoldeb terfynol am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn parhau gyda'r Cyngor.

4.9 Dirprwyo

Fe welir cynllun dirprwyo Rheoli'r Trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151 yn Atodiad 8.

ATODIADAU

1. Proffil aeddfedu benthyciadau
2. Datganiad Polisi DRI
3. Rhagolygon cyfraddau llog
4. Cefndir economaidd
5. Buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig
6. Rheolau Gwrthbartion
7. Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
8. Cynllun dirprwyo rheoli'r trysorlys a rôl y swyddog cyllid 151
9. Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
10. Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys
11. Dangosyddion Pwyllog A Thrysorlys

DADANSODDIAD BENTHYCIADAU YN AEDDFEDU 2013/14 YMLAEN/ LOANS MATURITY ANALYSIS 2013/14 ONWARDS						
	PWLB Aeddefedu/ PWLB Maturity	PWLB EIP/ Annuity/ PWLB EIP/ Annuity	Benthyciadau Marchnad/ Market Loans	PWLB Amrywiol/ PWLB Variable	Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing	%YN Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
5.5.1.3 Mae'r polisi hwn wedi ei drafod gyda'r undebau llafur perthnasol ac maent yn ei gefnogi.

5.5.2 Amcanion a Maes y Polisi

5.5.2.1 Dan y polisi hwn amcennir at:

- ddarparu dulliau i chwi fynegi pryderon, a lle bo'n addas, ac yn amodol ar gyngor Swyddog Monitro y Cyngor, i dderbyn gwybodaeth yn ôl ar unrhyw gamau a gymerir
- caniatáu i chwi fynd ar drywydd y mater ymhellach petaech yn anfodlon gydag ymateb y Cyngor; a
- chynnig sicrwydd i chwi y cewch eich diogelu rhag dialedd a rhag annhegwch am rannu pryderon [er budd y cyhoedd](#).

Deleted: mewn modd diffuant

5.5.2.2 Eisoës mae'r Cyngor â threfniadau fel bod yr unigolyn yn medru cyflwyno cwyn ynghylch ei waith. Bwriad y Polisi Rhannu Pryderon hwn yw cyffwrdd â phryderon sydd y tu allan i faes yr holl drefnidau eraill sydd eisoes yn eu lle.

5.5.2.3 Efallai y bydd yr unigolyn yn pryderu am rywbeth sydd:

- yn anghyfreithlon; neu
- yn erbyn Cyfansoddiad neu bolisiau'r Cyngor; neu
- ddim yn cyrraedd safonau neu'r arferion a sefydlwyd; neu'n
- cyfateb i ymddygiad amrhiodol.

5.5.3 Diogelwch

5.5.3.1 Erlid a Dial

Mae'r Cyngor yn derbyn fod penderfyniad i ddweud wrth rywun am bryderon yn benderfyniad anodd, ac yn arbennig oherwydd ofni y bydd y rheiny sy'n gyfrifol am yr arferion drwg yn dial. Ni fydd y Cyngor, ar unrhyw gyfrif, yn goddef dial nac erlid a bydd yn cymryd camau i ddiogelu'r unigolyn pryd bynnag y bydd hwnn'n mynegi pryder [er budd y cyhoedd](#).

Deleted: diffuant

5.5.3.2 Cyfrinachedd

Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i beidio â datgelu eich enw pan fyddwch yn mynegi pryderon a chwithau ddim yn dymuno datgelu eich enw i neb. Yn ystod y cyfnod o wneud ymholiadau efallai y daw amser pryd y bydd hi'n amhosib, am resymau cyfreithiol neu rai ymarferol, parhau i gadw'ch enw yn gyfrinachol (er enghraifft, petaech yn derbyn gwahoddiad i gyflwyno datganiad i'w ddefnyddio fel tystiolaeth yn yr achos), cewch wybod am hynny, ac am y rhesymau, a chewch gyfle i benderfynu ym mha fodd y dymunwch i'ch cwyn dienw barhau i gael ei thrin felly. Ni fydd y Cyngor yn eich gorfodi i wneud dim a allai ddatgelu eich enw onid oes ganddo ddyletswydd cyfreithiol absoliwt i wneud hynny.

5.5.3.3 Haeriadau Dienw

Er mwyn sicrhau y bydd y staff yn cael eu diogelu gan y Ddeddf Datgan er Budd y Cyhoedd 1998 cânt eu hannog i'w roddi eu henwau wrth yr huriadau. (Mae rhagor o fanylion am y diogelwch a rydd y Ddeddf hon i weithwyr¹ sy'n datgelu yn ymddangos yn yr atodiad ynghlwm wrth y Polisi hwn a hanogir chwi i ddarllen y ddogfen honno fel bod modd i chwi ddeall beth yw sgôp y diogelwch).

Mae'r polisi hwn yn cynnig anogaeth i unigolion roddi enw ynghlwm wrth yr haeriad. Nid yw'r pryderon hynny a fynegir yn ddiennw mor gryf, ond rhoddir sylw iddynt yn ôl disgrisiwn Swyddog Monitro'r Cyngor.

Wrth ddefnyddio disgrisiwn, dyma'r ffactorau y rhoddir sylw iddynt:

- pa mor ddifrifol yw'r materion a godir
- a ydyw'r pryderon yn gredadwy; a
- pa mor debygol y llwyddir i brofi'r haeriadau o'r ffynhonell a nodir.

5.5.3.4 Haeriadau Anwir

Petaech yn gwneud haeriadau [er budd y cyhoedd](#), a'r Cyngor yn methu eu cadarnhau ar ôl gwneud ymholiadau, yna ni fydd camau'n cael eu cymryd yn eich erbyn. Fodd bynnag, petaech, ar y llaw arall yn cyflwyno haeriadau drygionus neu annifyr, cymerir camau disgyblu.

Deleted: diffuant

5.5.4 Sut i Fynegi Pryderon

5.5.4.1 Fel cam cyntaf, gofynnir i'r unigolyn fynegi'r pryderon wrth y rheolwr neu'r [uwch](#) swyddog sydd union uwch ei ben. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ba mor ddifrifol neu ar ba mor sensitif yw'r materion ac yn dibynnu hefyd ar bwy arall sydd yn rhan o'r arferion drwg honedig.

5.5.4.2 [Yn unol ag](#) argymhelliad gan Bwyllgor Nolan ar Safonau Ymddwyn Mewn Llywodraeth Leol [mae'r Cyngor wedi derbyn](#), y dylid ymddiried i swyddog [y ddyletswydd o](#) ymchwilio i bryderon staff ynghylch materion a godwyd yn gyfrinachol. Petaech yn teimlo na fedr wch fynegi'r pryderon gyda'r rheolwr llinell, yna anogir chwi i gysylltu gyda Swyddog Monitro'r Cyngor.

Deleted: Mae'r Cyngor eisoes wedi derbyn yr

Deleted: , sef

Deleted: neu drosglwyddo'r ddyletswydd

Deleted: i bwrpas

5.5.4.3 Ar y llaw arall, efallai y byddwch yn dymuno mynegi'r pryderon i'r Prif Weithredwr, neu mewn achos o amrholdeb ariannol, y [Pennaeth Swyddogaeth \(Adnoddau\)](#) neu'r

Deleted: Cyfarwyddwr Corfforhaethol

Deleted: Cyllid

¹ [yn adlewyrchu'r derminoleg yn y ddeddfwriaeth](#)

[Rheolydd](#) Archwilio mewnl.

Deleted: Tim

5.5.4.4 Y peth gorau yw mynegi'r pryderon yn ysgrifenedig. Gwahoddir chwi i gyflwyno cefndir a hanes y pryderon, gan nodi enwau, dyddiadau a lleoedd pan fo hynny'n bosib, ac egluro hefyd pam eich bod yn pryderu'n arbennig am y sefyllfa. Petaech yn teimlo na fedrwyd gyfleu'r pryderon yn ysgrifenedig, yna mae'n bosib i chwi ffonio'r swyddog priodol neu gyfarfod â hwnnw.

5.5.4.5 Cyntaf yn y byd gorau yn y byd y byddwch yn mynegi pryderon gan y bydd hi wedyn yn haws cymryd camau.

5.5.4.6 Ni fydd disgwyl i chwi brofi fod haerriad yn gywir ond bydd rhaid i chwi ddangos i'r person y byddwch yn cysylltu â fo fod gennych ddigon o resymau i gynnal a chyfiawnahu'r pryderon.

5.5.4.7 Mi fedrwyd gael cyngor a chanllawiau ar sut i fynd ar drywydd pryderon gan: Swyddog Monitro, Cyngor Ynys Môn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW ffôn 01248 752586 e.bost: lbxc@ynysmon.gov.uk

5.5.4.8 Hefyd mi fedrwyd wadd eich undeb llafur neu eich cymdeithas broffersiynol i godi mater ar eich rhan.

5.5.5 Sut y bydd y Cyngor yn ymateb

5.5.5.1 Bydd y camau a gymero'r Cyngor yn dibynnu ar natur y pryderon. Yng nghyswllt y materion mae'n bosib y byddant:

- yn cael eu hymchwilio'n fewnl
- yn cael eu trosglwyddo i'r Heddlu
- yn cael eu trosglwyddo i'r Archwiliwr [allanol / Rheoleiddiwr](#)
- yn cael sylw ymchwiliad annibynol

Deleted: Allanol

5.5.5.2 Gyda golwg ar ddiogelu'r unigolion a'r Cyngor, gwneir ymholiadau i benderfynu a ydyw ymchwiliad yn briodol ac os ydyw'n briodol, sut ymchwiliad y dylai fod. Fel arfer bydd pryderon neu haeriadau sy'n perthyn i faes penodol o drefniadau (er enghraifft, diogelu plant neu faterion rhagfarnu) yn cael sylw dan y trefniadau penodol hynny.

5.5.5.3 Efallai y bydd modd datrys rhai pryderon trwy gymryd camau y cytunir arnynt a heb orfod cynnal ymchwiliad.

5.5.5.4.1 Pan fyddwch wedi rhoi eich enw a'ch cyfeiriad bydd y Cyngor yn ysgrifennu atoch cyn gynted ag y bo'n bosib, neu o leiaf cyn **3 diwrnod gwaith**, i gydnabod derbyn eich pryderon.

Formatted: Font: Bold

5.5.5.4.2 Cyn pen **deng niwrnod gwaith** i dderbyn y pryderon bydd y Cyngor yn ysgrifennu atoch:

Formatted: Font: Bold

- yn nodi sut y bwriada ddelio gyda'r mater
- yn cyflwyno amcan o faint o amser a gymer i gyflwyno ymateb terfynol.

5.5.5.5 Os dymunwch godi'r mater y tu allan i'r Cyngor dyma rai rhifau posibl

- rhif ffôn cymorth ar rannu pryderon y Comisiwn Archwilio 020 7630 1019
- rhif ffôn cymorth Unsain ar rannu pryderon 0800 597 9750

- yr Heddlu, ffôn 01492 517171
- y corff elusen annibynol “Consyrn Cyhoeddus yn y Gwaith”, ffon 020 7404 6609
- Undeb T&G, 01248 672031
- Undebau T&G a GMB, 01248 421762 Est.22

5.5.5.6 Petaech yn anfodlon gydag ymateb y Cyngor ac yn dymuno mynd ymhellach yna cyngorior chwi i gysylltu gyda [Yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddog PIPA, Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ, whistleblowing@wao.gov.uk](#), neu Ombudsmon Llywodraeth Leol [Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ](#), Hefyd, hwyrach eich bod eisiau cael cyngor cyfreithiol annibynol i weld a yw'n bosib gwneud cais am [adolygiad barnwrol](#).

5.5.5.7 Adolygu a Monitro

[Caiff y polisi a'r gweithdrefnau eu hadolygu ar y cyd gan yr undebau a'r rheolwyr bob blwyddyn. Anfonir gwybodaeth briodol am bob cwyn yr ymchwiler iddi at y Gwasanaeth\(au\) perthnasol ar unwaith fel bod modd cymryd unrhyw gamau cywiro.](#)

Atodiad i'r Polisi Rhannu Pryderon

Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

“Rhannu pryderon” yw'r enw ar yr arfer pan fo gweithiwr yn datgelu gwybodaeth am arferion drwg yn y man gweithio.

Dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 diogelir y rhai hynny sy'n rhannu pryderon a cheisir cynnig anogaeth i weithwyr ddatgelu gwybodaeth trwy ddulliau mewnol priodol yn y lle cyntaf, yn hytrach na mynd yn syth at rywun o'r tu allan, megis aelod o'r wasg. Dan y Ddeddf hon mae'n weddol syml a hwylus i weithiwr ddatgelu gwybodaeth i'w gyflogwr a chael ei ddiogelu yn erbyn diswyddiad neu anfanteision eraill; yr un pryd mae'n anoddach i weithiwr ddatgelu gwybodaeth yn allanol, er enghraifft, i'r cyfryngau a chael yr un diogelwch.

Dibynna'r trefniadau ar fframwaith cyfreithiol cymhleth a hwnnw yn seiliedig ar chwe chategori o arferion drwg, a'r enw arnynt yw “datgeliadau cymwys”; rhaid datgelu mewn un o chwe ffordd er mwyn cael diogelwch dan y Ddeddf. Mae'r diffiniad o “weithiwr” yn unigryw i'r Ddeddf hon ac yn cynnwys gweithwyr, rhai contractwyr annibynnol, gweithwyr asiantaeth, gweithwyr o'u cartrefi, hyfforddeion a staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ond nid yw'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol, gwirfoddolwyr, yr heddlu na'r lluoedd arfog.

Datgeliadau cymwys

“Datgeliad cymwys” yw'r weithred o ddatgelu gwybodaeth sydd, ym marn resymol y gweithiwr, yn tueddu i ddangos fod un neu ragor o'r methiannau perthnasol isod wedi digwydd, yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd:

- trosedd
- dyletswyddau cyfreithiol unigolyn yn methu
- camweinyddiad cyfiawnder
- perygl i iechyd neu i ddiogelwch unigolyn
- difrod i'r amgylchedd
- cuddio neu gelu unrhyw un o'r materion uchod

Y peth pwysicaf yw cred resymol y **gweithiwr**, nid, er enghraifft, a oes trosedd wedi ei chyflawni mewn gwirionedd ai peidio. [Ni fydd y datgeliad ond yn ddatgeliad cymwys os yw'r](#)

Deleted: Y Comisiwn Archwilio, 1 Vincent Square, London SW1P 2PN

Deleted: Ty Derwen, Court Road, Penybont CF31 1BN

Deleted: A

Deleted: B

Formatted: Font: Bold

Formatted: Font color: Red

[gweithiwr/weithwraig yn credu'n rhesymol bod y datgeliad "er budd y cyhoedd".](#)

Beth yw Chwythwr Chwiban

[Chwythwr chwiban yw unigolyn sy'n codi pryder gwirioneddol mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod. Os oes gennych unrhyw bryderon gwirioneddol o ran amau camweithredu neu mewn perthynas â pherygl sy'n cael effaith ar unrhyw un o'n gweithgareddau \(pryder chwythu'r chiban\) dylech roi gwybod amdano dan y polisi hwn.](#)

Nid yw'r polisi'n berthnasol yn yr amgylchiadau isod

[Ni ddylid defnyddio'r polisi ar gyfer cwynion sy'n ymwneud a'ch amgylchiadau personol eich hun, fel y ffordd yr ydych wedi cael eich trin yn y gwaith. Yn yr achosion hynny dylech ddefnyddio'r weithdrefn gwynion neu'r polisi atal bwlio ac aflonyddu, fel sy'n briodol. Dylid codi pryderon mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau Etholedig yn unol a chôd ymddygiad yr aelodau. Ymhellach, nid yw'r polisi hwn yn disodli gweithdrefn gwynion y Cyngor sy'n ymwneud a rhoi sylw i gwynioni am wasanaethau'r cyngor.](#)

[Os ydych yn ansicr am unrhyw beth o fewn sgôp y polisi hwn dylech ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro, y mae ei manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.](#)

[Os oes gennych unrhyw bryderon am wasanaeth a ddarperir gan sefydliad arall ar ran y Cyngor dylech gysylltu â darparwr y gwasanaeth yn y lle cyntaf.](#)

Dull datgelu

Cyn sicrhau diogelwch dan y Ddeddf bydd raid i ddatgeliad cymwys ddigwydd mewn un o'r chwe ffordd. Yn aml gelwir y pedair ffordd gyntaf yn "ddatgeliadau y lefel gyntaf", gan fod y rhain yn cynnig y diogelwch mwyaf bosib i'r sawl sy'n rhannu pryderon dan y Ddeddf:

- datgelu i'r cyflogwr neu i unigolyn cyfrifol arall
- datgelu i gynghorydd cyfreithiol
- datgelu i Weinidog y Goron
- datgelu i unigolyn a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Yn y ddau gategori olaf o ddatgelu nodir dan ba amgylchiadau y mae modd diogelu datgeliadau eraill, gan gynnwys datgelu i'r cyfryngau:

- datgeliadau eraill sy'n bodloni amodau penodol a [restrir](#) dan y Ddeddf
- datgelu enghreifftiau difrifol iawn o dorri'r rheolau etc

Datgeliadau y lefel gyntaf

Datgelu i'r cyflogwr neu i unigolyn cyfrifol arall

Yr unig ofynion yma yw bod y datgeliad cymwys yn cael ei wneud i gyflogwr [er budd y cyhoedd](#). Gall "cyflogwr" yma olygu nifer o bethau ond mae'n debyg y bydd yn berson gyda chyfrifoldeb rheoli dros y gweithiwr.

Mae datgelu i "bobl gyfrifol eraill" yn cynnwys amgylchiadau pan fo gweithiwr yn datgelu yng nghyswllt person arall heblaw ei gyflogwr neu yng nghyswllt materion y mae'r person arall hwnnw â chyfrifoldeb cyfreithiol amdanynt. Er enghraifft, pan fo gweithiwr i gwmni archwilio yn mynegi pryderon i'r client yng nghyswllt mater y buasai'r client yn gyfreithiol gyfrifol amdano.

Formatted: Font: Bold

Deleted: :

Formatted: Font color: Auto

Deleted: w

Deleted: â

Deleted: _

Deleted: yw

Deleted: or

Deleted: nodir

Deleted: yn ddiffuant

Datgelu i gynghorydd cyfreithiol

Pan fo datgeliad cymwys yn cael ei wneud gan y gweithiwr wrth iddo gael cyngor cyfreithiol, yna diogelir y weithred dan y Ddeddf.

Datgelu i Weinidog y Goron

Pan fo cyflogwr gweithiwr yn unigolyn neu'n gorff a benodwyd dan ddeddfwriaeth gan Weinidog y Goron (e.e. Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol) yna diogelir y datgeliad pan fo datgeliad o'r fath yn cael ei wneud yn ddiffuant i Weinidog y Goron.

Datgelu i berson a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Mae'r Ddeddf yn rhestru'r bobl hynny a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac i ba bwrpas y cânt eu dynodi (e.e. y [Comisiynydd Gwybodaeth](#) neu y Gweithgor Iechyd a Diogelwch).

At ei gilydd bydd y bobl hyn yn rheolyddion diwydiannau penodol.

Pan fo gweithiwr yn gwneud datgeliad cymwys yn ddiffuant i unigolyn dynodedig, yng nghyswllt mater y mae'r unigolyn hwnnw yn ymwneud â fo, a'r gweithiwr yn credu'n rhesymol bod y wybodaeth a ddatgelir yn sylweddol gywir a gwir, yna bydd y gweithiwr yn cael ei ddiogelu dan y Ddeddf.

Mae'n anodd penderfynu a yw datgeliad yn un sylweddol wir a chywir ai peidio - mae'n fater goddrychol. Os ydyw'r gweithiwr yn gwneud camgymeriad ni fydd yn colli diogelwch y Ddeddf oherwydd y camgymeriad os oedd yr hyn a gredai yn rhesymol dan yr amgylchiadau.

Yn amlwg mae'r categori hwn o ddatgelu yn gorfodi'r gweithiwr i gyflwyno tystiolaeth ar lefel uwch na'r lefel honno sy'n angenrheidiol i bwrpas rhannu pryderon yn y categorïau blaenorol. Fodd bynnag, mae'r categori hwn yn caethiwo llai na'r caethiwed hwnnw ar unigolion sydd y tu allan i'r corff neu'r sefydliad cyflogi, rhai sy'n cael eu trin fel datgeliadau ail lefel.

Felly mae'r Ddeddf yn annog gweithiwr sy'n bwriadu gwneud datgeliad allanol i wneud y datgeliad hwnnw i reolydd dynodedig yn hytrach nag i ffynhonnell allanol arall, ffynhonnell megis y cyfryngau. Gwneir hyn ar y ddealltwriaeth fod gan y rheolydd ddyletswydd statudol i ymchwilio i faterion sydd y tu mewn i'w gylch gwaith, a bod modd diogelu cyfrinachedd ac ni fydd y rheolydd yn talu am ddatgeliadau.

Datgeliadau allanol ail lefel

Datgeliadau dan amgylchiadau eraill

Rhyw gategori i bawb a phopeth yw hwn ac yn cyffwrdd a datgeliadau eraill, megis datgeliadau i'r cyfryngau. Diogelir y datgeliadau hyn os:

- yw'r datgeliad yn cael ei wneud [er budd y cyhoedd](#); a
- bod y gweithiwr yn credu'n rhesymol bod y datgeliad yn sylweddol wir a chywir; a
- nad yw'r datgeliad yn cael ei wneud er mwyn lles personol; a
- mae'n ddatgeliad rhesymol i'w wneud; ac

Deleted: Pan fo polisi rhannu pryderon yn ei le ac yn caniatáu datgelu gwybodaeth i drydydd parti penodol, parti megis cynrychiolydd undeb llafur, yna dywed y Ddeddf y bydd datgelu gwybodaeth i'r person hwnnw yn cael ei drin fel datgelu gwybodaeth i'r cyflogwr.¶

Deleted: y

Deleted: Cofrestrwyd Diogelu Data

Deleted: yn ddiffuant

- os ydyw'r amodau a ganlyn yn cael eu parchu :

bod y gweithiwr yn credu'n rhesymol y bydd yn cael ei erlid os ydyw'r pryder yn cael ei fynegi'n fewnol neu i reolydd dynodedig; neu

yn absenoldeb unrhyw berson dynodedig addas fod y gweithiwr yn rhesymol gredu y bydd pob peth yn cael ei guddio a'l roddi o'r neilltu os ydyw'r pryder yn cael ei fynegi'n fewnol; neu os ydyw'r gweithiwr ar achlysur o'r blaen wedi mynegi ei bryderon i'w gyflogwr neu i berson dynodedig.

I grynhoi, rhaid datgelu [er budd y cyhoedd](#), chan gredu o fewn rheswm bod y datgeliad [yn un sy'n disgyn o fewn budd y cyhoedd](#). Hyd yn oed wedyn rhaid bodloni tri amod a rhaid i'r gweithiwr fod wedi ymddwyn yn rhesymol wrth wneud datgeliad.

Deleted: yn ddiffuant

Deleted: heb gymhelliad i ennill dim yn bersonol a

Deleted: yn wir a chywir

Beth yw ystyr rhesymol?

Nid yw'r prawf ar beth sy'n rhesymol neu beidio yn gymwys onid yw'r gweithiwr wedi bodloni tri amod. Wrth benderfynu a ydyw'r gweithiwr wedi ymddwyn yn rhesymol ai peidio bydd Tribiwnlys yn ystyried pwy yw'r derbynnydd, difrifoldeb y pryderon, ac a ydyw'n debygol o aiddigwydd neu barhau i ddigwydd, cyfrinachedd a natur y datgeliad wnaed ar achlysur blaenorol. Fel enghraifft, os oes pryder difrifol wedi ei fynegi yn fewnol o'r blaen a'r ymateb iddo wedi bod yn anfoddfaol, yna mae'r Tribiwnlys yn fwy tebygol o ystyried mae rhesymol oedd i'r gweithiwr gymryd camau pellach a gwneud datgeliad yn fwy agored.

Datgelu enghreifftiau o "dorri rheolau etc. mewn modd difrifol iawn"

Mae'r math olaf o ddatgeliadau a ddiogelir yn ymwneud ag amgylchiadau pan fo'r pwnc neu'r mater yn ddigon difrifol i fynd heibio un o'r trefniadau eraill yn y Ddeddf. Er mwyn sicrhau diogelwch rhaid i'r gweithiwr ddangos:

- bod y datgeliad yn cael ei wneud [er budd y cyhoedd](#); a
- bod y wybodaeth a ddatgelir yn sylweddol wir a chywir; a
- nad yw'r datgeliad yn cael ei wneud er mwyn lles personol; a
- bod y mater a ddatgelir yn un o natur ddifrifol iawn; a
- dan y cyfan o'r amgylchiadau ei bod hi'n rhesymol i'r unigolyn wneud y datgeliad.

Deleted: yn ddiffuant

Y gwahaniaeth hanfodol rhwng y math hwn o ddatgelu a'r math blaenorol yw absenoldeb y 3 amod. Yma mae'n ddigon i'r gweithiwr sefydlu bod y methiant perthnasol yn fethiant eithriadol o ddifrifol ei natur. Mae bod yn rhesymol ai peidio yn y categori hwn yn dibynnu ar bwy yw'r person y datgelir y wybodaeth iddo. Yma mae modd rhoddi sylw i'r mathau cynt o ddatgelu ond nid oes dyletswydd statudol benodol i wneud hynny.

[Budd y Cyhoedd](#)

[Ni fydd datgeliad yn ddatgeliad cymwys oni bai bod y gweithiwr/weithwraig yn credu'n rheysmol bod y datgeliad wedi ei wneud er budd y cyhoedd.](#)

Deleted: Datgelu yn ddiffuant

¶ Pan fo rhywbeth yn cael ei ddatgelu yn onest mae datgeliad o'r fath yn ddiffuant, er efallai y bydd y datgelu yn digwydd heb gymryd pob gofal priodol. Mae'r gofynion hyn yn tynnu ymaith y diogelwch a roddir dan y Ddeddf pan fo datgeliad yn cael ei wneud am resymau cudd, megis blaemel

Cwynion i Dribiwnlysoedd Cyflogaeth

Mae modd cyflwyno cwynion i Dribiwnlysoedd oherwydd diswyddo'n annheg neu oherwydd creu anafantais anghyfreithlon [yn seiliedig ar "ddatgeliad gwarchoddedig"](#)- rhaid cyflwyno cwynion cyn pen 3 mis i ddyddiad y diswyddiad neu'r anfantais, waeth beth fo oed neu hyd gwasanaeth yr achwynydd.

Os ydyw gweithiwr sydd wedi gwneud datgeliad a ddiogelir yn cael ei ddiswyddo yna bydd gweithred o'r fath yn awtomatig yn annheg os ydyw diswyddiad wedi digwydd yn benodol am fod y gweithiwr wedi gwneud datgeliad a ddiogelir. Enghreifftiau o greu anfanteision anghyfreithlon yw gwrthod rhoddi dyrchafiad i'r unigolyn sy'n rhannu pryderon neu gymryd camau disgyblu yn erbyn person o'r fath. Peth arall sy'n anghyfreithlon yw bygwth unigolyn gyda thriniaeth sy'n creu anfanteision.

Nid oes uchafswm i'r iawndal y mae modd ei ddyfarnu am [chwythu'r chwiban mewn perthynas â](#) ddiswyddo annheg neu am greu anfanteision anghyfreithlon. Bydd unrhyw iawndal yn cael ei asesu yn ôl beth sydd yn gyfiawn ac yn deg dan yr amgylchiadau ac ar ôl ystyried y golled i'r gweithiwr. Hefyd, dan amgylchiadau priodol, gall Tribiwnlys roddi cymorth amodol, megis rhoddi ei swydd yn ôl i'r unigolyn tra'n disgwyl am ddyfarniad ar y cais neu'r achos.

RHIF YR EITEM

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor
Dyddiad	17 Chwefror 2014 a 27 Chwefror 2014
Pwnc	Llywydd y Cyngor
Deilydd Portffolio	Alwyn Rowlands
Swyddog(ion) Arweiniol	Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Swyddog Cyswllt	Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Rheswm am yr adroddiad	
1.1	Cael barn ar newidiadau a awgrymir i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol Cymru 2013.
1.2	Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn ynglŷn â phenodi llywydd.

A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion	
Effaith y ddeddfwriaeth newydd	
2.1	Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn caniatáu (ond nid yw'n gorfodi) y Cyngor i wahanu'r swyddogaethau a wneir yn draddodiadol gan gadeirydd y Cyngor, er mwyn creu strwythur lle y byddai:- <ul style="list-style-type: none"> a. Swyddogaethau llywodraethu a gweinyddu'r swydd yn cael eu gwneud gan y llywydd; ac b. Y byddai'r swyddogaethau seremonïol a sifig yn dod yn rôl ar ei phen ei hun i'w gwneud gan y cadeirydd sifig.
2.2	Gall y Cyngor benderfynu ar gyfnod swydd y llywydd; ac fe all fod am holl dymor y Cyngor.
2.3	Gall swyddogaethau'r llywydd gynnwys unrhyw swyddogaeth y mae'r cadeirydd presennol yn ei gwneud mewn perthynas â'i gyfarfodydd a

gweithgareddau ond ei b/phrif rôl fyddai cadeirio cyfarfodydd o'r Cyngor.

- 2.4 Ni ellir ethol aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn llywydd.
- 2.5 Bydd y llywydd yn parhau yn ei swydd hyd nes y ceir ei ymddiswyddiad/waharddiad; y caiff olynydd hawl i weithredu fel llywydd; y bydd y Cyngor yn penderfynu diddymu swydd y llywydd neu y bydd etholiad Cyngor cyffredin yn cael ei chynnal.
- 2.6 Bydd angen hefyd ethol dirprwy lywydd; a hefyd ddirprwy gadeirydd sifig.

Effaith ar Uwch Gyflogau

- 2.7 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn talu uwch gyflogau i 14 o'i aelodau. Mae'r cap presennol a osodwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) ar uwch gyflogau y caniateir i'r Cyngor eu talu, yn 15.
- 2.8 Byddai cyflog y llywydd yn disgyn o fewn y cap, yn ôl Adroddiad Blynyddol Drafft yr IRP dyddiedig Chwefror 2014, 2014/2015, a byddai'r cyflog yn £22,000 (sy'n cynnwys y lwfans sylfaenol).
- 2.9 Yr ystod cyflog sy'n daladwy i gadeirydd y Cyngor yn ôl Adroddiad Blynyddol Drafft yr IRP, 2014/2015 fydd £19,000-£24,000. Pe cai'r rôl hon ei rhannu'n ddwy, awgrymir y dylid talu cyflog o £19,000 i'r cadeirydd sifig o ystyried y byddai rôl y llywydd sy'n gysylltiedig â'i swydd yn cael ei gwneud ar wahân.
- 2.10 Os bydd y Cyngor yn penderfynu penodi llywydd a chadeirydd sifig gydag uwch gyflog y cadeirydd sifig ar waelod y raddfa gyflog, byddai'r gost ychwanegol i'r Cyngor o rannu rôl gyfredol y cadeirydd yn £8,700 y flwyddyn.
- 2.11 Bydd rôl y dirprwy lywydd yn ddi-dâl ac ni fydd yn disgyn o fewn y cap. Mae'r un yn wir hefyd am rôl y dirprwy gadeirydd sifig.
- 2.12 Gyda chytundeb yr arweinyddion grwpiau mae awdur yr adroddiad hwn wedi cyflwyno cais ffurfiol am i'r cap o 15 o uwch gyflogau gael ei gynyddu i 16 i gyfrif am benodiad posib y llywydd. Mae'r Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol wedi gwrthod y cais hwn er y byddai'r Cyngor, os byddai'n dewis gwneud hynny, yn gallu talu un uwch gyflog ychwanegol heb yr angen i gynyddu'r cap o gwbl.

B – Ystyriaethau

1. Pe cai llywydd ei benodi, rhaid fyddai hefyd benodi dirprwy lywydd i wneud unrhyw beth a awdurdodir sydd angen ei wneud gan y llywydd ac yn ei (h)absenoldeb.
2. Dylid rhoi'r bleidlais fwrw mewn cyfarfodydd o'r Cyngor i'r llywydd. Byddai'r cadeirydd sifig yn colli'r bleidlais fwrw.

C – Goblygiadau ac Effaith

1	Cyllid / Adran 151	
2	Swyddog Cyfreithiol / Monitro	Awdur yr Adroddiad hwn
3	Adnoddau Dynol	Dim yn berthnasol
4	Gwasanaethau Eiddo (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân)	Dim yn berthnasol
5	Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth	Dim yn berthnasol
6	Cydraddoldeb (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân)	Dim yn berthnasol
7	Gwrthdodi a Chymdeithasol (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân)	Dim yn berthnasol
8	Cyfathrebu (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân)	Dim yn berthnasol
9	Ymgynghori (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân)	Prif Weithredwr ac Arweinyddion Grwpiau
10	Economaidd	Dim yn berthnasol
11	Amgylcheddol (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân)	Dim yn berthnasol
12	Trosedd ac Anhrefn (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân)	Dim yn berthnasol
13	Cytundebau Canlyniadau	Dim yn berthnasol

CH – Crynodeb

Mae'r fframwaith statudol newydd yn caniatáu i'r Cyngor ethol "llywydd" yn ychwanegol i gadeirydd sifig y Cyngor. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu penodi llywydd, mae'r deddf yn caniatáu i'r Cyngor roi i'r llywydd unrhyw swyddogaethau a wneir ar hyn o bryd gan gadeirydd presennol y Cyngor. Argymhellir mai rôl unrhyw llywydd fyddai cadeirio cyfarfodydd o'r Cyngor, ynghyd â'r holl bwerau gweinyddol a'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â hynny e.e. gwahardd galw i mewn, delio â cheisiadau am gyfarfodydd arbennig.

D – Argymhelliad

Bod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor.

Pe bai'r Cyngor yn penderfynu gweithredu'r newid deddfwriaethol a ganiateir yna bydd angen penderfyniad fydd rhywbeth yn debyg i'r canlynol:-

1. Rhannu swyddogaethau presennol cadeirydd y Cyngor a chreu 'r swyddi newydd o llywydd a chadeirydd sifig.
2. Y llywydd i ymgymryd â'r rôl o gadeirio cyfarfodydd o'r Cyngor ac ymarfer holl swyddogaethau gweinyddol a phwerau sy'n gysylltiedig â hynny gyda'r holl ddyletswyddau sifig a chyfrifoldebau'n dod yn rhan o oruchwylion y cadeirydd sifig.
3. Penodi dirprwy llywydd a dirprwy gadeirydd sifig; lle nad oes unrhyw uwch gyflogau ynglŷn â hwy.
4. Yn amodol ar y cymalau a ddisgrifir yn yr Adroddiad, bod tymor swydd y llywydd yn parhau am oes y Cyngor neu ryw dymor llai fel y bydd y Cyngor yn ei benderfynu.
5. Yn amodol ar y cymalau a ddisgrifir yn yr Adroddiad, bod hyd tymor swydd y dirprwy llywydd yn parhau am holl fywyd y Cyngor neu ryw dymor llai fel y penderfyna'r Cyngor.
6. Cadarnhau y bydd pleidlais fwrw'r cadeirydd yn eistedd gyda'r llywydd.
7. Penderfynu ar gyflogau priodol i rôl y llywydd a'r cadeirydd sifig yn unol â pharagraff 2.7 a 2.8 yr adroddiad hwn.
8. Cadarnhau y bydd rôl cadeirydd sifig y Cyngor a dirprwy gadeirydd sifig y

Cyngor yn parhau i gael eu llenwi'n flynyddol.

Atodiadau:

D/B

Papurau Cefndirol:

1. Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol Cymru 2013 -
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/4/pdfs/anaw_20130004_en.pdf
2. Adroddiad Drafft IRP 2013/2014 –
<http://wales.gov.uk/irpwsb/home/publication/201415/draft-annual-report-1415/?lang=en>

This page is intentionally left blank

RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad	13 Ionawr, 2014
Pwnc	Gwerthfawrogiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Aberffraw
Deilydd(ion) Portffolio	Y Cynghorydd John Arwel Roberts
Swyddog(ion) Arweiniol	Keith A. Williams, Dave J. Jump a Glyn E. Jones
Swyddog Cyswllt	Keith A. Williams, est: 2433, kwxpl@anglesey.gov.uk
1.0 Natur a rheswm am adrodd	
<p>Er mwyn cefnogi cyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor Llawn nesaf i'w mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ac i ddilyn y broses briodol i fabwysiadu'r ddogfen i helpu i ddiogelu cymeriad Ardal Gadwraeth Aberffraw.</p>	

A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw
<p>2.0 CEFNDIR</p> <p>2.1 Yn y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 mae angen i Awdurdodau Lleol ddynodi fel Ardal Cadwraeth "Unrhyw ardal o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig y mae ei gymeriad neu ei edrychiad yn ddymunol i'w cadw neu i'w wella".</p> <p>2.2 Mae angen hefyd i awdurdodau lleol adolygu eu hardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd ac ystyried a oes angen am ddynodiadau ychwanegol.</p> <p>2.3 Er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau o dan y ddeddf mae'r Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd y Gwasanaeth Cynllunio wedi cynnal rhaglen dreigl o adolygiadau ar gyfer pob un o'r 12 Ardal Cadwraeth ar Ynys Môn. Adolygiad Aberffraw yw'r olaf o'r deuddeg.</p> <p>2.4 Er mwyn rhoddi i'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ei statws priodol, mae'r Swyddog Monitro yn cynghori y dylai'r drefn arferol gael ei dilyn, sef cael ei fabwysiadu trwy benderfyniad y Cyngor Llawn.</p> <p>3.0 CYFARWYDDYD CYNLLUNIO PRESENNOL</p> <p>3.1 Mae'r cyfarwyddyd a'r polisi presennol i'w weld yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth a Pholisi Cynllunio Cymru.</p> <p>3.2 Maent yn argymhell paratoi gwerthusiadau cadwraeth a'u mabwysiadu fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) all fod o gymorth i awdurdodau cynllunio yn eu gweithgareddau cynllunio a rheoli datblygu.</p>

4.0 Y BROSES ADOLYGU

4.1 Mae'r gwerthusiad cymeriad wedi edrych ar y ffin bresennol a nodi a oedd angen unrhyw newidiadau i'r dynodiad gwreiddiol. Roedd yn canolbwyntio hefyd ar ddiddordebau hanesyddol arbennig, cymeriad, edrychiad a chadwraeth fel sy'n cael ei bwysleisio yn Neddf 1990.

4.2 Mae'r gwerthusiad yn argymhell newidiadau mân i'r ffin (gweler crynodeb gweithredol a chynllun sydd ynghlwm). Bydd y cynnydd bychan ym maint yr ardal yn ddibwys o ran ei effaith ar adnoddau'r Gwasanaeth.

5.0 YMGYNGHORI CYHOEDDUS

5.1 Ar ôl paratoi'r ddogfen ddrafft fe roddwyd rhybudd cyhoeddus yn y wasg leol. Dilynwyd hyn gan gyfnod o bedair wythnos o ymgynghori cyhoeddus a mewdol rhwng 21 Hydref 2013 a 15 Tachwedd 2013.

5.2 Anfonwyd copïau hefyd i'r llyfrgell gyhoeddus yn Rhosneigr a Llangefni, prif dderbynfa'r Cyngor Sir a'r Gwasanaeth Cynllunio, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Technegol), Prif Swyddog Datblygu Economic, Deilydd Portffolio'r Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cynghorwydd Lleol, Cyngor Cymdeithas Aberffraw, Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd a haneswr lleol.

5.3 Fe gafwyd pump ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a mewdol. Mae pedwar allan o'r pum ymatebwyr yn cefnogi'r ddogfen tra bod un yn dymuno cofrestru ei wrthwynebiad oherwydd nad oedd yn gallu gweld y ddogfen ar yr adeg ysgrifennu (e-bost gwrthwynebiad a dderbyniwyd ar 21/11/13). Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r newidiadau arfaethedig i'r ffin.

5.4 Mae'r mân ddiwygiadau a wnaed i'r ddogfen wreiddiol yn cynnwys cysylltiadau clir â'r Cynllun Rheoli Cychfan (CRC) a fabwysiadwyd.

6.0 RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

6.1 Er mwyn darparu arweiniad ar gyfer datblygiadau yn y broses gynllunio.

B – Ystyriaethau

Y brif ystyriaeth yw:

Swyddogion Cynllunio yn cyfeirio at, ac yn cymryd i ystyriaeth, yr holl CCA a gymeradwyd gan y Cyngor Llawn. Felly, byddai methiant i fabwysiadu'r ddogfen yn tansellio ystyriaeth a chyfarwyddyd (ar gyfer datblygiadau) pwysig yn y broses gynllunio.

C - Goblygiadau ac Effeithiau		
1	Cyllid / Adran 151	
2	Swyddog Cyfreithiol / Monitro	
3	Adnoddau Dynol	
4	Gwasanaethau Eiddo (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
5	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
6	Cydraddoldeb (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
7	Gwrthdodi a Chymdeithasol (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
8	Cyfathrebu (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
9	Ymgynghori (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Cafodd y ddogfen ei adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a mewdol rhwng y 21 Hydref, 2013 a 15 Tachwedd 2013.
10	Economaidd	Gellir defnyddio'r ddogfen, sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a fabwysiadwyd (CRC), i gynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau cyllid grant allanol.
11	Amgylcheddol (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Dyletswyddau'r Cyngor o dan y Ddeddf CGHT 2000 a Deddf ANCG 2006 wedi cael eu hystyried wrth lunio'r CCA.
12	Trosedd ac Anrhefn (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
13	Cytundeb Canlyniadau	

CH – Crynodeb	
<p>I grynhoi, mae'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol Gwerthfawrogiad Cymeriad Ardal Gadwraeth yn cynnwys; cefndir hanesyddol, lleoliad, pensaernïaeth lleol ac ati ac Adolygiad Ffiniau.</p> <p>Mae'r ddogfen wedi derbyn lefel uchel o gefnogaeth yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a mewdol. Mae'r ddogfen, os caiff ei mabwysiadu, yn cwblhau'r gyfres o ddogfennau tebyg a fabwysiadwyd gan y Cyngor a bydd yn cynorthwyo'r cyhoedd a'r Awdurdod Cynllunio yn eu swyddogaethau cynllunio a rheoli datblygu.</p>	

D – Argymhelliad

Cymeradwyo Gwerthfawrogiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Aberffraw a chefnogi ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn nesaf i'w fabwysiadu fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA).

Enw awdur yr adroddiad: Keith A. Williams
Swydd: Swyddog Technegol,
Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd,
Gwasanaeth Cynllunio
Dyddiad: 17^{eg} Rhagfyr, 2013

Atodiadau:

Crynodeb Gweithredol a Chynllun Ffiniau

Papurau Cefndirol:

Adran 21 - Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth a Pholisi Cynllunio Cymru.

Adran 71 - Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Dogfen ddrafft a adneuwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a mewnol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Fydd y Datganiad Cymeriad Ardal Cadwraeth hwn yn dod yn Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) gweithredol pan gaiff ei fabwysiadu. Mae'n cefnogi **Cynllun Lleol Ynys Môn 1996 (Polisi 40)** a'r **Cynllun Datblygu Unedol (Polisi EN13)** a ddaeth i ben sy'n nodi y bydd cymeriad a golwg yr holl ardaloedd cadwraeth dynodedig yn cael eu diogelu rhag datblygiad anghydnaws. Bydd eu cymeriad yn cael ei wella a'i ddatblygu drwy wneud gwelliannau a chaniatáu datblygiad newydd sydd wedi'i ddylunio'n addas.

Bydd y ddogfen hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Mae **Cylchlythyr 61/96** (paragraff 20) yn datgan mai ansawdd lleoedd ddylai fod y brif ystyriaeth wrth nodi, diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth. Mae hyn yn dibynnu ar fwy nag adeiladau unigol. Mae'n gydnabyddedig y gall cymeriad arbennig lle ddeillio o lawer o ffactorau, gan gynnwys: grwpio adeiladau; eu graddfa a'u perthynas â mannau awyr gored;... manylion pensaernïol ac yn y blaen.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5, Tachwedd 2012 paragraff 6.5.17)** yn nodi y byddai rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio petai unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r nod o gadw neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad.

Yn Adran 13 **Canllawiau Cynllunio Ategol – Cyfarwyddyd Dylunio Amgylchedd Trefol a Gwledig (2008)** Cyngor Sir Ynys Môn mae cyngor yng nghyswllt datblygiadau yn y cyd-destun hanesyddol.

Ceir crynodeb isod o'r elfennau sy'n cyfrannu at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth **Aberffraw** y mae angen ei chadw neu ei gwella.

Hanes

- Mae'r i'r ardal hanes cyn-hanesyddol, Rhufeinig, a Chanoloesol.
- Yn Aberffraw yr oedd prif lys Tywysogion Aberffraw ac Eryri.
- Mewn llawysgrifau o'r 13eg ganrif sy'n cofnodi chwedlau llafar o gyfnod cynharach, mae ail gainc y Mabinogi'n cyfeirio at gynnal un o'r prif ddigwyddiadau - Neithior Branwen, yn Aberffraw.
- O'r 16eg ganrif ymlaen roedd dwy ystâd fawr yn rheoli Aberffraw - ystâd Meyrick o Fodorgan ac ystâd y teulu Owen o Fodowen (oedd yn ddisgynyddion i Owain Gwynedd a fu farw yn 1170).

Gosodiad

- Mae Aberffraw ar arfordir de-orllewin Môn ar flaen aber yr Afon Ffraw.

- Mae'r pentref bach gyda'r sgwâr yn y canol, wedi ei leoli ar godiad tir graddol uwchlaw'r afon.
- Mae twyni arbennig yn nodweddu ymyl dwyreiniol y pentref.

Pensaernïaeth

- Mae'r tai yn gyffredinol yn fach gan adlewyrchu cefndir gweithiol y pentref.
- Mae amrywiaeth o ddeunyddiau agorffeniadau'n cynnwys: gwaith maen wedi'i naddu a gwaith rwbel, stwco, waliau allanol rendr garw a rendr llyfn, a thoeau llechi.
- Mae'r tai fel arfer naill ai'n fythynnod ar wahân neu'n derasau byr ac maent yn tueddu i fod yn unllawr neu ddeulawr.


Terfyn

- Bwriedir newid terfyn yr ardal gadwraeth.
- Bydd cyfanswm yr arwynebedd yr ardal gadwraeth yn cynyddu o 102,700m² i 107,900m².

Elfennau Ychwanegol

- Bydd y ddogfen hon yn helpu i diogelu a harddu ardal benodol o amgylchedd adeiledig Ynys Môn, yn unol â **Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRC)** a fabwysiadwyd.

Cynllun terfyn ardal cadwraeth



This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MON	
CYFARFOD:	COUNTY COUNCIL
DYDDIAD:	27 FEBRUARY 2014
TEITL YR ADRODDIAD:	AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I ADRODD YN OL I'R CYNGOR A DERBYN YR ARGYMHELLIAD

1. Cefndir

1.1 Penderfynodd y Cyngor ar 27 Ionawr 2014 fel a ganlyn o safbwynt amser cynnal cyfarfodydd:

- *I gefnogi cynnal rhai cyfarfodydd (Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini) am 4:00 p.m. a 4:30 p.m. a bod y trefniadau'n cael eu trafod gyda Chadeiryddion ac Aelodau'r pwyllgorau perthnasol a bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 27 Chwefror, 2014.*
- *Nodi canfyddiadau'r asesiad effaith cydraddoldeb cychwynnol.*
- *Bod trefniadau'n cael eu treialu am gyfnod o 12 mis gan ddechrau yn Ebrill, 2014."*

1.2 Mae'r 3 Pwyllgor uchod bellach wedi ystyried y mater ac wedi penderfynu cadw at y trefniadau presennol h.y. Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i ddechrau am 1.00pm a'r Pwyllgorau Sgriwtini Corfforaethol a Partneriaeth ac Adfwyio i ddechrau am 2.00pm

2.0 Argymhelliad

2.1 Gofynnir i'r Cyngor Sir gadarnhau trefniadau amseriad cyfarfodydd yn wyneb sylwadau'r Pwyllgorau a nodir uchod.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd Dros Dro
17/02/14

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	27 CHWEFROR 2014
TEITL YR ADRODDIAD:	CYTUNDEB CANLYNIAD 2013 - 2016
DEILYDD PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS
SWYDDOG ARWEINIOL:	PRIF WEITHREDWR
NATUR A RHESWM DROS ADRODD:	Cydymffurfio â pharagraff 4.5.16.10 Cyfansoddiad y Cyngor y bydd y penderfyniadau a gymerir fel mater o frys gan y Pwyllgor Gwaith yn cael eu hadrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf un o'r Cyngor Sir yn rhoi'r rhesymau am y brys

CYTUNDEB CANLYNIAD 2013 - 2016

Cefndir:

Yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2014 ystyriodd y Pwyllgor Gwaith adroddiad brys gan y Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen ar drefniadau newydd ar gyfer Cytundeb Canlyniad 2013-16 gan geisio cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r cytundeb newydd 2013-16 yn seiliedig ar gyfarwyddyd terfynol Llywodraeth Cymru. Deliwyd â'r mater hwn fel mater brys o ystyried yr angen i gwblhau materion gyda Llywodraeth Cymru mor fuan ag oedd yn bosibl ac felly nid oedd modd ei alw-i-mewn.

Cyflwynwyd cytundebau canlyniad gan Lywodraeth Cymru er mwyn nodi sut yr ydym yn gweithio tuag at wella canlyniadau i bobl leol yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol y Llywodraeth. Byddai'r cytundeb cyfredol hwn yn gytundeb tair blynedd gyda'r taliad olaf yn cael ei wneud yn 2016-17. Telir y grant yn llawn (tua £730k) pan fo cyfran sylweddol o'r targedau a'r ymrwymadau wedi eu cyflawni. Mae'r trefniadau a'r cyfarwyddyd ar gyfer y Cytundeb Canlyniad newydd wedi ei gwblhau gan Lywodraeth Cymru yn Hydref October 2013.

Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith *“gymeradwyo'r dewis o'r themâu a'r canlyniadau strategol newydd ar gyfer y Cytundeb Canlyniad tair blynedd newydd yn dechrau yn 2013-14 a derbyn adroddiad pellach ar gytundeb terfynol yn dilyn cwblhau trafodaethau gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru.”*

Mae paragraff 4.5.16.10 Cyfansoddiad y Cyngor yn dweud bod yn rhaid i benderfyniadau a gymerir fel mater o frys gael eu hadrodd yn ôl i'r cyfarfod nesa fydd ar gael o'r Cyngor Sir, gan roi'r rhesymau am y brys. Mae'r Cyfansoddiad yn dweud hefyd bod yn rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad a gynigiwyd yn rhesymol ym mhob amgylchiad a chaniatáu hefyd iddo gael ei drin fel mater o frys. Drwy amryfusedd, ni fodlonwyd y gofyn hwn cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ac ni ddywedwyd chwaith wrth Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y penderfyniad arfaethedig cyn iddo gael ei wneud. Fe wnaed y penderfyniad yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith yn amodol ar gymal y byddai'r ddau anghenraid hynny'n cael eu bodloni.

Argymhelliad:

Nodi cynnwys yr adroddiad.

Richard Parry Jones
Prif Weithredwr

14 Chwefror 2014



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

IEUAN WILLIAMS
Cynghorydd - Councillor

Arweinydd y Cyngor Sir
Leader of the County Council

Swyddfa'r Sir - Council Offices
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

ffôn / tel: (01248) 752137
ffacs / fax: (01248) 750839

E-bost: iwxau@ynysmon.gov.uk
E-mail: iwxau@anglesey.gov.uk

Ein Cyf - Our Ref:
Eich Cyf - Your Ref:

21.11.13.

Councillor Hywel Eifion Jones,
Tanpencefn Bach,
BRYNSIENCYN,
Ynys Môn.
LL61 6TJ

Annwyl Gynghorydd Jones,

Cadarnaf fy mod wedi dirprwyo i'r Cynghorydd Hywel Eifion Jones (Deilydd Porffolio Cyllid) i wneud penderfyniad ar rhan yr holl Pwyllgor Gwaithi i fabwysiadu a dod i rym ym Mon o'r 1af Hydref 2013, dau gynllun newydd rhyddhad dewisol Llywodraeth Cymru rhag talu'r Dreth Fusnes - sef y cynlluniau a enwi'r yn "Datblygiadau Newydd" ac "Agored i Fusnes".

Yn gywir / Yours sincerely,

Cynghorydd / Councillor Ieuan Williams,
ARWEINYDD Y CYNGOR / COUNCIL LEADER

Copi i/Copy to:- Ms Clare Williams
Mr. Geraint H. Jones
Ms Lynn Ball

Dear Councillor Jones,

"I confirm that I have delegated to Councillor Hywel Eifion Jones (Portfolio Holder Finance) to make a decision on behalf of the whole Executive to adopt and bring into force on Anglesey from 1st October 2013, the Welsh Government's two new discretionary business rates relief schemes – being the schemes known as "New Developments" and "Open for Business."

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan Y Deilydd Portffolio (Cyllid)

1. GWNAED GAN	Deilydd Portffolio (Cyllid)
2. Y PENDERFYNIAD	Mabwysiadu'r penderfyniad a disgrifiad o'r categorïau o hereditament y bydd Adran 47 (cymorth dewisol) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn eu gosod yn berthnasol i "Ddatblygiadau Newydd" ac "Agored am Fusnes" yn unol â meini prawf rhagnodedig, sydd wedi eu atodi.
3. GWNAED AR	22 Tachwedd, 2013
4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD	Dodi rym o'r 1af Hydref, 2013 â pholisïau rhyddhad o'r Dreth Fusnes newydd Llywodraeth Cymru sef- "Datbygiadau Newydd" ac "Agored i Fusnes".
5. DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim yn berthnasol.
6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dirprwyodd yr Arweinydd yr hawl i wneud y penderfyniad ar ran y Pwyllgor Gwaith i'r Deilydd Portffolio (Cyllid) ar 23 Hydref, 2013. Cadarnhawyd y caniatad yn ysgrifenedig gan yr Arweinydd ar 21 Tachwedd, 2013.
7. YMGYNGHORI, OS O GWBL	Dim yn berthnasol.
8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?	Ydi.
DYDDIAD CYHOEDDI:	27 Tachwedd, 2013
DYDDIAD GWEITHREDU:	5 Rhagfyr, 2013

PRAWF BUDD Y CYHOEDD

PUBLIC INTEREST TEST

(Teitl yr Adroddiad/Title of Report) Datganiad Polisi Tâl/Pay Policy Statement 2014

<p>Paragraff(au) Paragraph(s) 13, 14</p>	<p>Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Schedule 12A Local Government Act 1972</p>
<p>Y PRAWF – THE TEST</p>	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae budd i'r cyhoedd wybod am faterion sy'n ymwneud â sefydliad y Cyngor a gweithwyr y Cyngor gan eu bod yn weithwyr cyhoeddus. Mae diddordeb uniongyrchol gan y cyhoedd yng nghostau gwasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd.</p> <p>There is public interest in knowing of matters which relate to the Council's establishment as public sector workers. The public have direct interest in the cost of services and efficiency savings.</p>	<p>Budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae yna ddisgwyliad rhesymol fod pob mater sy'n ymwneud â gweithiwr unigol y Cyngor yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae'r adroddiad hwn â goblygiadau cyflogaeth sy'n ymwneud ag uwch dîm arweinyddiaeth y Cyngor a mae'n bosib adnabod unigolion o deitl y swydd.</p> <p>There is a reasonable expectation that all matters relating to an individual employee of the Council are treated confidentially. This report has implications in relation to the remuneration of senior leadership team posts and it will be possible to identify individuals from post titles.</p>
<p>Argymhelliad - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilêwch y geiriau amherthnasol] Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank